WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2016 – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 682A2016

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Elaine Matthews, Barrie Morris, Gail Turner-Radcliffe a Jenny Trevor oedd y tîm a gyflawnodd y gwaith, o dan gyfarwyddyd Dave Thomas

# Cynnwys


Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei gynllunio strategol, ei sefyllfa ariannol a gweithrediad y bwrdd, er bod angen gwneud rhagor o waith i wella rheolaeth ariannol a gorffen gwneud trefniadau sicrhau'r bwrdd

Adroddiad cryno

Cyd-destun 5

Canfyddiadau allweddol 6

Argymhellion 9

Adroddiad manwl

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i sicrhau arbedion sylweddol, ond mae angen cryfhau agweddau pwysig ar reolaeth ariannol ymhellach er mwyn cydymffurfio â Gorchmynion Sefydlog ac i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r amgylchedd ariannol allanol heriol 11

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei gynllunio ariannol strategol fel y gellir cyflawni strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd 11

Gellid gwella trefniadau ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol ymhellach er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd ariannol 13

Er bod trefniadau monitro ariannol cryf ar waith, mae angen gwella adrodd ariannol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth brydlon at ddibenion gwneud penderfyniadau 14

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni yn erbyn ei nodau ariannol blynyddol ar gyfer 2015-16 ac mae perfformiad yn ystod y flwyddyn bresennol yn dynodi y bydd sefyllfa ariannol gytbwys yn cael ei sicrhau ar ddiwedd 2016-17 15

Mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd cywir ond nid yw wedi bodloni argymhellion cynllunio a rheoli ariannol blaenorol eto 15

Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithio'n dda ac mae prosesau cynllunio wedi gwella'n sylweddol, ond mae gofynion sicrwydd allweddol yn dal i ddatblygu ac nid yw rhai materion o asesiadau strwythuredig blaenorol wedi cael sylw llawn eto 17

Lluniodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Tymor Canolig Integredig yn llwyddiannus am ail flwyddyn ac mae'n parhau i gryfhau ei brosesau cynllunio, er bod angen datblygu gwaith monitro ac adrodd ar gyflawniad ymhellach 17

Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wneud gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu ei fframwaith sicrhau'r bwrdd a chryfhau effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau, er nad yw problemau gyda llywodraethu gwybodaeth wedi cael eu datrys eto 24

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau adrodd ar weithrediad argymhellion. Mae camau i fynd i'r afael â'r problemau a'r argymhellion a nodwyd mewn asesiadau strwythuredig blaenorol ar y trywydd cywir ond heb eu cwblhau eto 38

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2016 42

# Adroddiad cryno

## Cyd-destun

1 Mae’r asesiad strwythuredig yn archwilio trefniadau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) sy’n cefnogi llywodraethu da a’r defnydd effeithlon, effeithiol ac economaidd o adnoddau. Yn y gorffennol, asesodd y gwaith gadernid trefniadau rheoli ariannol, addasrwydd trefniadau llywodraethu, rheolaeth galluogwyr allweddol sy’n cefnogi defnydd effeithiol o adnoddau, a’r cynnydd a wnaed o ran mynd i’r afael â materion gwella a nodwyd yn flaenorol. Canfu ein gwaith yn 2015 bod trefniadau i gefnogi llywodraethu da a’r defnydd effeithlon, effeithiol ac economaidd o adnoddau wedi cryfhau’n sylweddol. Ein casgliad ar gyfer 2015 oedd bod y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa gryfach i sicrhau cydbwysedd ariannol a bwrw ymlaen â chamau gweddnewid, cyn belled ag y gall cydnerthedd a chyflymder y newid gael eu cynnal.

2 Mae gwaith asesu strwythuredig yn 2016 unwaith eto wedi adolygu trefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd a’r cynnydd o wnaed o ran mynd i’r afael ag argymhellion y flwyddyn cynt. Eleni, rydym hefyd wedi gwneud gwaith cymharol mewn tri maes. Hysbyswyd y meysydd a ddewiswyd a’r cwmpas gan ein dadansoddiad ein hunain o faterion Cymru gyfan a thrafodaeth gydag ysgrifenyddion byrddau. Mae’r meysydd o waith cymharol yn cynnwys:

- fformat adroddiadau ariannol i fyrddau;
- trefniadau ar gyfer datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a monitro ac adrodd ar gyflawniad y cynlluniau hyn[1]; a
- dulliau ar gyfer mapio risgiau a sicrwydd a datblygu fframwaith sicrhau’r bwrdd[2].

3 Mae’r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau archwilio lleol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Ar ôl cwblhau adroddiadau archwilio lleol, byddwn yn cwblhau dadansoddiadau Cymru gyfan ar y tri maes o waith cymharol, i’w rhannu gyda sefydliadau GIG a fforymau Cymru gyfan perthnasol, fel cyfarwyddwyr cyllid, cyfarwyddwyr cynllunio a grwpiau ysgrifenyddion byrddau. Bwriedir i’r dull hwn gynorthwyo dysgu, trwy rannu dulliau ac arfer da ar draws sefydliadau GIG. Bydd cyhoeddiad ein dadansoddiad cymharol o ddatblygiad ac adroddiadau Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael ei gydgysylltu â chyhoeddiad adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, sydd wedi ei gynllunio ar gyfer dechrau 2017.

4 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar gyfweliadau, arsylwadau pwyllgor, adolygiad o ddogfennau a data perfformiad, datganiadau gwybodaeth gan ysgrifenyddion

[1] Rydym wedi ystyried y cynllun blynyddol lle nad oes Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy.

[2] Mae fframwaith sicrhau’r bwrdd yn nodi’r peryglon i fodloni amcanion corfforaethol, y rheolaethau mewnol ar gyfer lliniaru rhag y peryglon hynny a’r sicrwydd sydd ei angen ar y bwrdd i wybod bod rheolaethau yn effeithiol a bod peryglon yn cael eu rheoli.

byrddau a chyfarwyddwyr cyllid a chanlyniadau arolwg o aelodau byrddau o bob cwr o Gymru. Derbyniwyd 12 o ymatebion gennym gan y Bwrdd Iechyd, cyfradd ymateb o 57%, ac rydym wedi adlewyrchu rhai o'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn[3]. Hoffem ddiolch i'r aelodau bwrdd hynny a ymatebodd i'n harolwg am eu hamser a'u mewnbwn.

# Canfyddiadau allweddol

5 Ein casgliad cyffredinol o waith asesu strwythuredig 2016 yw bod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei gynllunio strategol, ei sefyllfa ariannol a gweithrediad ei fwrdd, er bod angen gwneud rhagor o waith i wella rheolaeth ariannol a gorffen gwneud trefniadau sicrhau'r bwrdd.

6 Caiff y rhesymau am ddod i'r casgliad hwn eu crynhoi isod.

## Cynllunio a rheoli ariannol

7 Wrth adolygu trefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, canfuwyd gennym fod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i sicrhau arbedion sylweddol, ond mae angen cryfhau agweddau pwysig ar reolaeth ariannol ymhellach er mwyn cydymffurfio â Rheolau Sefydlog ac i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r amgylchedd ariannol heriol.

### Cynllunio ariannol

8 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei gynllunio ariannol strategol fel y gellir cyflawni strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd. Mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer pennu cyllidebau refeniw a chyfalaf mewn sawl ffordd bwysig er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio'n llawn â Rheolau Sefydlog. Er bod swyddogaethau a chyfrifoldebau cynllunio ariannol yn eglur a bod dealltwriaeth ohonynt, gyda phrosesau priodol a gweithgareddau cyllidebol wedi'u cofnodi yn y gweithdrefnau rheolaethau cyllidebol, nodwyd nifer o wendidau gennym y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy.

9 Er bod y cyllidebau yn cael eu paratoi yn ôl yr un amserlen â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a bod ganddynt gysylltiadau ag ef felly, nid yw'n ymddangos eu bod wedi eu llywio gan strategaeth hirdymor, gan na ystyriwyd cyllidebau wrth ddrafftio'r cynlluniau cyflawni sy'n sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

### Rheolaeth a stiwardiaeth ariannol

10 Gellid gwella trefniadau ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol ymhellach i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd ariannol. Mae

[3] Ymatebodd cyfanswm o tua 119 o aelodau bwrdd i'n harolwg ledled Cymru, sy'n gyfradd ymateb o 59%.

swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer rheolaeth ariannol ac atebolrwydd yn eglur, er y bu cyfnod o ddau fis pan roedd y swydd Cyfarwyddwr Cyllid yn wag. Amlygodd hyn y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Atebol, i berygl nad oedd sicrwydd priodol yn cael ei dderbyn. Yn absenoldeb Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, cyflwynwyd mesurau byrdymor i aelodau eraill o'r tîm cyllid gyflawni agweddau allweddol ar y swydd Cyfarwyddwr Cyllid, er bod angen cwblhau'r adolygiad arfaethedig o drefniadau cynllunio olyniaeth.

11 Gall y Bwrdd Iechyd gryfhau rheolaethau ariannol trwy sicrhau bod Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cael eu diweddaru a'u hadolygu i sicrhau bod cydymffurfiad â phrosesau priodol sydd ar waith.

### Monitro ac adrodd ariannol

12 Er bod trefniadau monitro ariannol cryf ar waith, mae angen gwella adrodd ariannol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth brydlon at ddibenion gwneud penderfyniadau. Ceir cyfres o gyfarfodydd rhwng y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Arweinwyr Gweithredol bob mis, lle trafodir monitro ariannol a chynlluniau arbedion. Yr allbwn o'r cyfarfodydd hyn yw'r adroddiad monitro ariannol, a gynhyrchir i safon dda.

13 Fodd bynnag, mae angen gwella adroddiadau ariannol i sicrhau gwybodaeth ddigonol i hysbysu cynllun gwasanaethau a phenderfyniadau yn well. Gan nad oes olrhain amser real o gyflawniad cynlluniau arbedion, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella'r broses o hysbysu am gyflawniad cynlluniau arbedion.

### Perfformiad ariannol

14 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni yn erbyn ei nodau ariannol blynyddol ar gyfer 2015-16 ac mae perfformiad yn ystod y flwyddyn bresennol yn dynodi y bydd sefyllfa ariannol gytbwys yn cael ei sicrhau ar ddiwedd 2016-17. Ceir hanes o gyflawni yn erbyn y gyllideb ers i Lywodraeth Cymru roi sylw i ddiffyg ariannol hanesyddol a chynyddu dyraniad cyllid y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn dda i'r sefyllfa ariannu newydd ac yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2016-17.

15 Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gennym y gallai cyflawniad sefydliadol neu ansawdd a diogelwch gwasanaethau gael eu peryglu er mwyn sicrhau cyflawniad ariannol llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, na bod hynny wedi digwydd, er nad yw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu cwblhau ar arbedion a wnaed bob amser.

## Llywodraethu a sicrwydd

16 Wrth adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol a sicrhau'r bwrdd y Bwrdd Iechyd, canfuwyd gennym fod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithio'n dda a bod prosesau cynllunio wedi gwella'n sylweddol, ond mae gofynion sicrwydd allweddol

yn dal i ddatblygu ac nid yw rhai materion o asesiadau strwythuredig blaenorol wedi cael sylw llawn eto.

## Cynllunio strategol ac adrodd

17 Lluniodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Tymor Canolig Integredig yn llwyddiannus am ail flwyddyn ac mae'n parhau i gryfhau ei brosesau cynllunio, er bod angen datblygu gwaith monitro ac adrodd ar gyflawniad ymhellach. Lluniwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn unol â'r amserlen ofynnol, cafodd ei graffu a'i gymeradwyo gan y bwrdd ac fe'i cymeradwywyd gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ym mis Gorffennaf 2016. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno model cynllunio strategol cynhwysfawr ac yn cymryd camau i gryfhau gallu a chapasiti cynllunio. Ceir trefniadau sicrwydd effeithiol sy'n esblygu i fonitro ac adrodd cynnydd ar gyflawniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig, er y gallai adroddiadau wneud gwell defnydd o grynodebau, cerrig milltir a rhagolygon. Mae'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i ddatblygu ei Strategaeth Iechyd a Gofal mwy hirdymor.

## Effeithiolrwydd a sicrwydd y Bwrdd

18 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wneud gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu ei fframwaith sicrhau'r bwrdd a chryfhau effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau, er nad yw problemau gyda llywodraethu gwybodaeth wedi cael eu datrys eto. Canfuwyd y canlynol gennym wrth ddod i'r casgliad hwn:

- **datblygiad fframwaith sicrhau'r bwrdd:** Er bod y broses o ddatblygu fframwaith sicrhau'r bwrdd cynhwysfawr wedi bod yn hirfaith, mae'r bwrdd yn deall ei ofynion sicrwydd erbyn hyn, ac mae rhagor o waith ar y gweill i'w gwblhau a'i roi ar waith yn effeithiol.
- **effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith helaeth o gryfhau effeithiolrwydd ei fwrdd a'i bwyllgorau, er y gellid gwneud mwy i ddarparu gwasanaethau gwrth-dwyll ac archwilio clinigol effeithiol.
- **llywodraethu gwybodaeth:** Mae llywodraethu gwybodaeth yn dal i fod yn bryder, er bod newidiadau diweddar wedi cryfhau trefniadau datblygu strategaethau, arweinyddiaeth a sicrwydd.

19 Ar ôl i'r fframwaith sicrhau'r bwrdd gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, bydd yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod dealltwriaeth o'r system sicrhau a'i bod yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol trwy ymsefydlu'r trefniadau ar draws y sefydliad; cyflawni rhaglen o hunanasesu; a diwygio'r fframwaith sicrhau yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau adrodd ar weithrediad argymhellion. Mae camau i fynd i'r afael â'r problemau a'r argymhellion a nodwyd mewn asesiadau strwythuredig blaenorol ar y trywydd cywir ond heb eu cwblhau eto

20 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da i fynd i'r afael â'r problemau a'r argymhellion a nodwyd yn asesiadau strwythuredig y blynyddoedd a fu. Cwblhawyd 7 argymhelliad ac mae 8 arall ar y trywydd cywir ond heb eu cyflawni eto. Er bod adroddiad eithrio ar gynnydd yn erbyn argymhellion archwiliadau yn cael ei gyflwyno i bob yn ail Bwyllgor Archwilio a Sicrhau, dylai'r pwyllgor adolygu'r argymhellion llawn bob blwyddyn o leiaf.

# Argymhellion

21 Nodir manylion argymhellion yn deillio o waith asesu strwythuredig 2016 yn Arddangosyn 1. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gynnal pwyslais ar weithredu unrhyw argymhellion blaenorol nad ydynt wedi eu cyflawni hefyd.

22 Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn yn Atodiad 1.

Arddangosyn 1: Argymhellion 2016

| Argymhellion 2016 |
|---|
| **Cynllunio ariannol** |
| A1 Cryfhau trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ariannol trwy: |
| a) Gyflwyno trefniadau cynllunio olyniaeth, wedi eu seilio ar broses gadarn o werthuso sgiliau a dadansoddiad bylchau o gymwyseddau allweddol i'r staff hynny y gallai fod yn ofynnol iddynt weithio yn lle rhywun yn ystod cyfnodau o absenoldeb. |
| b) Adolygu gweithdrefnau cymeradwyo cyllidebau, gan sicrhau y ceir cymeradwyaeth briodol a chadarnhad ffurfiol ar gam cywir y broses. |
| c) Adolygu'r broses sydd ar waith ar gyfer datblygu'r cynlluniau arbedion gan sicrhau bod y cynlluniau manwl yn cefnogi strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd. |
| ch) Ail-flaenoriaethu'r gyllideb i'w halinio yn agosach â strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd. |
| d) Cryfhau'r dystiolaeth fel bod y goblygiadau o ran y gweithlu, cyllid ystadau a TGCh yn cael eu hystyried yn drylwyr wrth ddatblygu'r cynlluniau cyflawni a darparu manylion ar gyfer pob un yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. |

| Argymhellion 2016 |
| --- |
| **Rheolaeth a stiwardiaeth ariannol**<br>A2 Cryfhau trefniadau presennol ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol trwy:<br>a) Sicrhau bod Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cael eu diweddaru a'u hadolygu yn gyfnodol.<br>b) Adolygu'r amgylchedd rheoli ariannol i sicrhau bod cydymffurfiad â phrosesau priodol sydd ar waith. |
| **Monitro ac adrodd ariannol**<br>A3 Cryfhau trefniadau presennol ar gyfer monitro ac adrodd ariannol trwy wella adrodd ar gyflawniad cynlluniau arbedion. |
| **Sicrhau'r Bwrdd**<br>A4 Ar ôl i'r fframwaith sicrhau'r bwrdd gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod dealltwriaeth a gweithrediad effeithiol o'r system trwy:<br>a) ymsefydlu'r trefniadau ar draws y sefydliad;<br>b) cynnal rhaglen o hunanasesu; a<br>c) diwygio'r fframwaith sicrhau yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd. |
| **Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau**<br>A5 Er y cydnabyddir bod amrywiaeth o archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf, mae angen cydgysylltu rhaglen archwilio clinigol y Bwrdd Iechyd yn fwy cadarn. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer archwilio clinigol i sicrhau ei bod yn chwarae rhan lawn ar gyfer gwella ansawdd a bod ei chyfraniad at sicrhau'r bwrdd yn eglur.<br>A6 Er i wasanaethau gwrth-dwyll gael eu hymsefydlu yn ystod 2015 a dechrau 2016, maent wedi gwaethygu ers hynny. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu gwasanaeth gwrth-dwyll cadarn a chynaliadwy.<br>A7 Er bod adroddiad eithrio ar gynnydd yn erbyn argymhellion archwilio yn cael ei gyflwyno i bob yn ail Bwyllgor Archwilio a Sicrhau, dylai'r pwyllgor adolygu'r traciwr argymhellion llawn bob blwyddyn o leiaf. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i sicrhau arbedion sylweddol, ond mae angen cryfhau agweddau pwysig ar reolaeth ariannol ymhellach er mwyn cydymffurfio â Gorchmynion Sefydlog ac i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r amgylchedd ariannol allanol heriol

23 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i sicrhau cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol mwy hirdymor. Rydym wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull cynllunio ariannol, rheolaethau a stiwardiaeth ariannol, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Rydym hefyd wedi ystyried y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol yn ymwneud â rheoli ariannol. Rydym yn ymwybodol bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal amrywiaeth o archwiliadau ac adolygiadau o drefniadau rheoli ariannol ac mae'r canfyddiadau o'r rhain yn cael eu defnyddio i hysbysu cynllun gwella. Nodir ein canfyddiadau isod.

### Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei gynllunio ariannol strategol fel y gellir cyflawni strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd

24 Mae ein casgliad ar effeithiolrwydd trefniadau cynllunio ariannol yn seiliedig ar y canfyddiadau canlynol:

- Mae angen cryfhau trefniadau ar gyfer pennu cyllidebau refeniw a chyfalaf mewn sawl ffordd bwysig. Er bod swyddogaethau a chyfrifoldebau cynllunio ariannol yn eglur a bod dealltwriaeth ohonynt, gyda phrosesau priodol a gweithgareddau cyllidebol wedi'u cofnodi yn y gweithdrefnau rheolaethau cyllidebol, nodwyd nifer o wendidau gennym y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy, fel a ganlyn:
  - yn 2015-16, sicrhawyd arbedion ychwanegol o £2.3 miliwn yn fwy na'r targed, ond penderfynodd y tîm Gweithredol y byddai'r gofyniad am ragor o arbedion yn cael ei gario drosodd i 2016-17 a'i ddyrannu ar sail dybiannol ar draws y cyfarwyddiaethau. Ni thrafodwyd hyn gyda deiliaid cyllidebau yn is na lefel weithredol gyda'r canlyniad bod ysbryd deiliaid cyllidebau wedi cael ei ddirywio gan eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt gyfrifoldeb am y targedau arbedion;
  - cyflwynwyd y papur a oedd yn nodi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17 i Aelodau Annibynnol ym mis Chwefror; roedd hyn ar ôl i'r gyllideb ddrafft gael ei chymeradwyo yn rhan o'r Cynllun Tymor Canolig

Integredig a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cydnabyddir y cymerwyd papur 2017-18 yn gynharach yn y broses;

  - mae'r Adroddiadau Statws Prosiect (neu gynlluniau arbedion) yn cynnwys targed arbedion cyffredinol, ond nid ydynt yn cynnig dadansoddiad manwl o arbedion yn erbyn pob cam gweithredu a sut y caiff y rhain eu cyflawni;
  - dylid ehangu lefel y naratif manwl i gefnogi pwysau costau i gynnig cyd-destun a dadansoddiad pellach;
  - roedd oedi o ran cadarnhad Gweithredol ar gyfer cyllidebau 2016-17 ac nid yw rhai wedi cael eu cadarnhau'n ffurfiol. Mae hyn yn mynd yn groes i Reolau Sefydlog. Rydym yn deall mai'r prif reswm am yr oedi oedd amseriad diwygiad portffolios Gweithredol ar ôl paratoi'r gyllideb, ond cyn i'r rhain gael eu llofnodi'n ffurfiol.

- Er bod y cyllidebau yn cael eu paratoi yn ôl yr un amserlen â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a bod ganddynt gysylltiadau ag ef felly, nid yw'n ymddangos eu bod wedi eu llywio gan strategaeth hirdymor, gan na ystyriwyd cyllidebau wrth ddrafftio'r cynlluniau cyflawni sy'n sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Rydym wedi ffurfio'r farn hon ar y sail:
  - bod rhai cynlluniau cyflawni wedi cael eu cyflwyno'n hwyr yn y flwyddyn ariannol (Medi a Thachwedd 2016). Felly, ni fyddai'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, a gymeradwywyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ym mis Gorffennaf 2016;
  - nid yw'r cynlluniau cyflawni yn cynnwys dadansoddiadau ariannol o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r camau a nodwyd.
  - mae'r cynllunio cyflawni cryno yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys pedwar categori, sef 'goblygiadau': gweithlu, cyllid, ystadau a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). O'r ugain cynllun cyflawni cryno a nodwyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, roedd 90% wedi ystyried y goblygiadau i'r gweithlu, 75% i'r ystadau a TGCh a 65% y goblygiadau ariannol. Nodir fod y gweddill 'I'w cwblhau'. O'r 15 cynllun cyflawni a oedd yn cynnwys manylion y goblygiadau ariannol, dim ond un o'r rhain (atal a gwella iechyd) oedd yn cynnwys gwerth ariannol. Roedd y lleill yn cynnig datganiad naratif yn unig.
  - ceir tystiolaeth gyfyngedig y craffwyd ar y cynlluniau cyflawni, a'u hagweddau ariannol yn benodol, gan Aelodau Annibynnol cyn eu mabwysiadu. Rydym yn cydnabod bod lefel y craffu wedi gwella yn ystod y flwyddyn wedi hynny.
  - y man cychwyn ar gyfer pennu cyllidebau yw tynnu cyllideb y flwyddyn cynt yn ei blaen ac yna diweddaru'r rhain trwy ychwanegu pwysau costau lleol a thargedau arbedion. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld

unrhyw dystiolaeth i ddangos sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried y cyllid sydd ei angen i ddarparu'r strategaeth hirdymor wrth bennu'r gyllideb. Mae ail-flaenoriaethu'r gyllideb yn fwy eglur i'w halinio'n agosach â strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd yn debygol o gefnogi ei darpariaeth lwyddiannus.

– mae hyblygrwydd ariannol o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 (ar gyfer cyrff â Chynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy) yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i wneud cais am ragdaliadau o gyllid y blynyddoedd i ddod. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi manteisio ar yr hyblygrwydd hwn.

## Gellid gwella trefniadau ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol ymhellach er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd ariannol

25 Mae ein casgliad ar drefniadau ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol dda yn seiliedig ar y canfyddiadau canlynol:

- mae swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer rheolaeth ariannol ac atebolrwydd yn eglur, er y bu cyfnod o ddau fis pan roedd y swydd Cyfarwyddwr Cyllid yn wag. Amlygodd hyn y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Atebol, i berygl nad oedd sicrwydd priodol yn cael ei dderbyn. Er enghraifft, roedd yr adroddiad monitro mis pump a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn cynnwys gwall, er i hwn gael ei gywiro y mis dilynol
- yn absenoldeb Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, cyflwynwyd mesurau byrdymor i aelodau eraill o'r tîm cyllid gyflawni agweddau allweddol ar y swydd Cyfarwyddwr Cyllid. Mae angen cwblhau'r adolygiad arfaethedig o drefniadau cynllunio olyniaeth, wedi ei seilio ar broses gadarn o werthuso sgiliau a dadansoddiad bylchau o gymwyseddau allweddol i'r staff hynny y gallai fod yn ofynnol iddynt weithio yn lle rhywun yn ystod cyfnodau o absenoldeb.
- er ein bod wedi canfod, yn gyffredinol, bod gweithgareddau a phrosesau rheolaeth priodol ar waith, bu diffyg cydymffurfiad â'r Rheolau Sefydlog yn ymwneud â chymeradwyo gwariant ar gostau cyfreithiol heb i archeb brynu neu weithdrefnau caffael eraill priodol fod ar waith. Mae'r gymeradwyaeth i'r gwariant hwn yn digwydd y tu allan i'r amgylchedd rheolaeth ariannol, sy'n gadael y Bwrdd Iechyd yn agored i wariant amhriodol a pherygl posibl o dwyll. Fe'n hysbyswyd bod gweithdrefn gryfach ar waith erbyn hyn.
- mae'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn y Bwrdd Iechyd yn ddyddiedig Mehefin 2014 ac yn seiliedig ar fersiwn enghreifftiol Llywodraeth Cymru. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau fersiwn wedi'i diweddaru o'r Rheolau Sefydlog yng nghyfarfod mis Tachwedd 2016, er i'r Aelodau Annibynnol benderfynu gohirio'r craffu ar y rhain fel y papurau tan y bydd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi'u diweddaru a Chynllun Dirprwyo ar gael hefyd;

- mae pryderon hanesyddol ynghylch cyfalaf ac ystadau wedi arwain at adolygiad allanol o’r rheolaethau sydd ar waith, ac yna adolygiad Archwilio Mewnol dilynol. Mae’r rheolaethau sy’n weithredol, a’r trefniadau rhwng y Grŵp Rheolaeth Gyfalaf a’r Bwrdd Buddsoddiad Cyfalaf yn arbennig, yn gweithio’n dda erbyn hyn.
- mae’r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad wedi gwella ei graffu yn ystod y flwyddyn o ran y fframwaith rheolaeth ariannol, er enghraifft trwy herio Swyddogion Gweithredol ynghylch sut y byddai cynlluniau cyflawni yn cael eu hariannu yng nghyfarfod mis Tachwedd 2016.
- er mai ‘sicrwydd cyfyngedig’ oedd barn gyffredinol yr Archwiliad Mewnol ar gyfer 2015-16, arweiniodd yr adolygiadau a gwblhawyd ym maes llywodraethu a rheoli ariannol at ddyfarniad o ‘sicrwydd rhesymol’. Rydym yn cydnabod y manteision o’r Bwrdd Iechyd fod yn hunanymwybodol a cheisio’r sicrwydd annibynnol y gall Archwiliad Mewnol ei gynnig i’r meysydd hynny y mae’r Bwrdd wedi amlygu a allai fod o bryder. Ar ôl amlygu unrhyw bryderon, mae’n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn cwblhau’r camau a nodir mewn ymatebion rheolwyr i fynd i’r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd, gan wneud cynnydd priodol cyn adolygiad dilynol a gytunwyd.

## Er bod trefniadau monitro ariannol cryf ar waith, mae angen gwella adrodd ariannol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth brydlon at ddibenion gwneud penderfyniadau

26 Mae ein casgliad ar effeithiolrwydd adrodd a monitro ariannol yn seiliedig ar y canlynol:

- mae angen cryfhau’r trefniadau ar gyfer adrodd ariannol, er y nodwyd maes o arfer da hefyd o ran y trefniadau monitro ariannol:
  - ceir cyfres o gyfarfodydd bob mis rhwng y Cyfarwyddwr Cyllid a’r Arweinwyr Gweithredol lle trafodir monitro ariannol a chynlluniau arbedion. Allbwn y cyfarfodydd hyn yw’r adroddiad monitro ariannol, a gynhyrchir i safon dda.
  - mae cynlluniau arbedion a’u cyflawniad yn eitem reolaidd yng nghyfarfodydd Cyflawni a Pherfformiad y Pwyllgor Gweithredol. Mae’r Prif Weithredwr yn dwyn y Cyfarwyddwyr Gweithredol i gyfrif am gyflawniad eu cynlluniau arbedion.
  - mae adolygiad o wybodaeth ariannol a adroddir i’r Bwrdd wedi nodi bod y Bwrdd Iechyd yn darparu lefel dda o wybodaeth am niferoedd staff, cyflog a refeniw o’i gymharu ag eraill. Fodd bynnag, gallai’r Bwrdd Iechyd wella ei adrodd ariannol ar ysgogwyr cost allweddol a chyflawniad arbedion.
  - cododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau bryderon ddechrau 2015 ynghylch nifer y gweithredoedd hawlildio tender unigol a pha un a yw’r

rhain yn cael eu defnyddio i osgoi'r broses gaffael. Mae'r rheolwyr wedi cryfhau'r broses mewn ymateb i'r pryderon hyn ac mae'r nifer a adroddwyd wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

– mae'n hawdd cysoni adroddiadau ariannol mewnol ac adroddiadau allanol i Lywodraeth Cymru ac maent yn cyd-fynd â'i gilydd, a chaiff achosion sylfaenol unrhyw amrywiadau eu nodi a'u datrys.
– mae'r Bwrdd yn ymateb yn agored ac yn dryloyw i unrhyw broblemau a nodir trwy ei adroddiadau ariannol.

- mae angen gwella adroddiadau ariannol i ddarparu gwybodaeth ddigonol i hysbysu cynllun a phenderfyniadau'r gwasanaeth:
  – mae gweithwyr clinigol a gwasanaeth proffesiynol, sy'n ddeiliaid cyllidebau, yn derbyn gwybodaeth ariannol amserol ac mae ganddynt fynediad byw at y system ariannol ac yn cymryd rhan lawn mewn gwaith monitro lefel gwasanaeth, er bod hyn yn cael ei arwain gan y Tîm Cyllid.
  – nid oes olrhain amser real o gyflawniad cynlluniau arbedion, er enghraifft, prin oedd y manylion ar gynlluniau arbedion a pherfformiad y rhain hyd yn hyn yn adroddiad ariannol mis dau.
  – nid yw'r Bwrdd yn ystyried costau/goblygiadau ariannol yn ei waith craffu ar gynlluniau cyflawni newydd gan nad oes unrhyw ddata ariannol yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau gwasanaeth hynny yn nodweddiadol.
  – un maes lle mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n dda yw adrodd llinell wasanaeth, a ddefnyddir i werthuso perfformiad a phenderfyniadau.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni yn erbyn ei nodau ariannol blynyddol ar gyfer 2015-16 ac mae perfformiad yn ystod y flwyddyn bresennol yn dynodi y bydd sefyllfa ariannol gytbwys yn cael ei sicrhau ar ddiwedd 2016-17

27 Mae ein casgliad ar y ddarpariaeth o berfformiad ariannol yn seiliedig ar y canlynol:

- ceir hanes o gyflawni yn erbyn y gyllideb ers i Lywodraeth Cymru roi sylw i ddiffyg ariannol hanesyddol a chynyddu dyraniad cyllid y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn dda i'r sefyllfa ariannu newydd ac yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2016-17.
- ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gennym y gallai darpariaeth sefydliadol neu ansawdd a diogelwch gwasanaethau gael eu peryglu i sicrhau perfformiad ariannol llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, na bod hynny wedi digwydd, er nad yw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu cwblhau ar arbedion a wnaed bob amser.

## Mae’r Bwrdd Iechyd ar y trywydd cywir ond nid yw wedi bodloni argymhellion cynllunio a rheoli ariannol blaenorol eto

28 Roedd ein hasesiadau strwythuredig ar gyfer 2014 a 2015 yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â rheoli ariannol. Mae Arddangosyn 2 yn disgrifio’r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion hyn.

Arddangosyn 2: cynnydd o ran argymhellion rheolaeth ariannol 2014 a 2015

| Blwyddyn | Argymhelliad | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|
| 2014 | A1 Mae rhai cynlluniau arbed yn afrealistig, a gall yr amser paratoi sydd ei angen er mwyn cyflawni rhai o’r cynlluniau arbed mwy cymhleth fod yn sylweddol. Roedd yn dal angen atgyfnerthu dulliau o sicrhau arbedion ochr yn ochr â phrosesau cyflenwi a chynllunio ariannol. Atgyfnerthu’r prosesau cynllunio ariannol, cyflenwi a monitro er mwyn cefnogi cyflawniad y cynlluniau arbed blynyddol. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gyflawni eto**<br>Mae gwaith yn parhau i gryfhau prosesau cynllunio, cyflawni a monitro ariannol i gefnogi cyflawniad y cynlluniau arbedion blynyddol. Bu rhai gwelliannau i’w fformat a’u cynnwys yn ystod y flwyddyn flaenorol.<br>Mae cynlluniau arbedion a’u cyflawniad yn eitem reolaidd yng nghyfarfodydd Cyflawni a Pherfformiad y Pwyllgor Gweithredol. Mae’r Prif Weithredwr yn dwyn y Cyfarwyddwyr Gweithredol i gyfrif am gyflawniad eu cynlluniau arbedion.<br>Cymerwyd camau i gryfhau trefniadau a cheir tystiolaeth o gynnydd o ran cyflawniad. Mae’r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yn herio a chraffu, gan ddwyn Cyfarwyddwyr Gweithredol i gyfrif am gyflawniad. |

| Blwyddyn | Argymhelliad | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|---|
| 2015 | A1 | Bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio llawer ar sicrhau cydbwysedd ariannol wrth reoli arian yn y gorffennol. Er y bydd angen i hyn gael blaenoriaeth o hyd, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau bod ganddo'r capasiti a'r setiau sgiliau angenrheidiol i gefnogi'r gwaith cynllunio ariannol a thrawsnewid mwy strategol ei natur a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gyflawni eto**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal amrywiaeth o archwiliadau ac adolygiadau o drefniadau rheoli ariannol. Mae'r canfyddiadau o'r rhain yn cael eu defnyddio i hysbysu cynllun gwella. Fodd bynnag, oherwydd y newidiadau i'r Cyfarwyddwr Cyllid, nid oes adolygiad llawn o gapasiti a setiau sgiliau wedi cychwyn eto. Gofynnir i'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro newydd, a ddechreuodd ddiwedd mis Hydref, i gynnal asesiad i ganfod a oes angen rhagor o waith adolygu. |

## Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithio'n dda ac mae prosesau cynllunio wedi gwella'n sylweddol, ond mae gofynion sicrwydd allweddol yn dal i ddatblygu ac nid yw rhai materion o asesiadau strwythuredig blaenorol wedi cael sylw llawn eto

29 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig ac adrodd ar ei gyflawniad. Mae'r dull ar gyfer datblygu ac adolygu fframwaith sicrhau'r bwrdd wedi cael ei adolygu hefyd, ynghyd ag ystyriaeth o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd a'i strwythurau llywodraethu, a'r cynnydd o wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion a materion gwella asesiadau strwythuredig blaenorol. Nodir ein canfyddiadau isod.

## Lluniodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Tymor Canolig Integredig yn llwyddiannus am ail flwyddyn ac mae'n parhau i gryfhau ei brosesau cynllunio, er bod angen datblygu gwaith monitro ac adrodd ar gyflawniad ymhellach

30 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull cynllunio strategol[4], monitro ac adrodd ar gyflawniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. Rydym hefyd wedi ystyried y trefniadau sy'n cefnogi'r ddarpariaeth o raglenni newid strategol sy'n sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

### Lluniwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn unol â'r amserlen ofynnol, cafodd ei graffu a'i gymeradwyo gan y bwrdd ac fe'i cymeradwywyd gan Ysgrifennydd y Cabinet

31 Datblygwyd gweledigaeth, nodau strategol ac amcanion y Bwrdd Iechyd gyntaf ychydig flynyddoedd yn ôl; fe'u hadolygwyd bob blwyddyn ers hynny ac ystyrir eu bod yn gyfredol o hyd. Mae Aelodau Annibynnol wedi cymryd rhan mewn wyth sesiwn datblygu'r bwrdd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r cynllun iechyd a gofal cymdeithasol mwy hirdymor yn 2016. Cynhaliwyd sesiwn datblygu'r bwrdd ym mis Hydref 2016 i adolygu'r weledigaeth bresennol yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd gweithdai gweledigaeth pellach yn dod â gwahanol randdeiliaid ynghyd i roi cyfeiriad strategol i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r weledigaeth fwy hirdymor sydd ei hangen ar gyfer datblygiad y Strategaeth Iechyd a Gofal. Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan y rhaglen newid strategol wedi'i hailddiffinio, a newidiodd o Fwrdd y Rhaglen Weddnewid i Fwrdd y Rhaglen Newid. Mae pwyslais Bwrdd y Rhaglen Newid ar y prosiectau canlynol: datblygu'r Strategaeth Iechyd a Gofal; cryfhau'r ddarpariaeth o ofal sylfaenol a chymunedol; cryfhau'r broses o gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr eraill; a gweithio ar raglenni galluogi datblygu'r gweithlu a'r sefydliad, technoleg, deallusrwydd busnes ac ystadau.

32 Mae ein harolwg yn datgelu bod aelodau'r bwrdd yn gadarnhaol am ddatblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn gyffredinol. Er y bu gwelliannau o ran cynllunio, mae sylwadau'n datgelu bod diffyg sgiliau cynllunio o hyd mewn rhyw ran o'r sefydliad y mae angen canolbwyntio arno ymhellach. Hefyd, oherwydd yr agenda integreiddio gyda Chyngor Sir Powys, mae'r Bwrdd yn cydnabod bod y gofyniad i Awdurdodau Lleol fod â Chynlluniau Corfforaethol yn golygu y byddai'n ddefnyddiol iawn alinio fframweithiau cynllunio i gefnogi dull cydgysylltiedig.

33 Cymeradwywyd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2016-2019 gan y Bwrdd llawn ar 29 Mawrth 2016. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd gymeradwyaeth i'w Gynllun Tymor

[4] Nid yw gwaith archwilio wedi ailadrodd gwaith craffu Cynllun Tymor Canolig Integredig Llywodraeth Cymru, ond wedi ystyried camau a gymerwyd gan gyrff GIG mewn ymateb i unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru ar y cynllun neu amodau cymeradwyo'r cynllun.

Canolig Integredig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon am yr ail flwyddyn yn olynol ym mis Gorffennaf 2016. Nododd y llythyr cymeradwyaeth a anfonwyd at y Prif Weithredwr nifer o amodau a gofynion parhaus o ran y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r amodau hyn yn ymwneud â:

- datblygu blaenoriaethau atal;
- ymrwymiad parhaus i drefniadau partneriaeth gyda sefydliadau GIG eraill a Chyngor Sir Powys;
- bodloni'r targedau a'r proffiliau a bennwyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer blwyddyn 1 (2016-17) er mwyn sicrhau'r sefyllfa well yn unol â blaenoriaethau a thargedau cenedlaethol a chynigion newid gwasanaethau lleol;
- rhoi atebion gwybodeg cenedlaethol a Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar gyfer Cymru ar waith; a
- bod â threfniadau darparu, monitro a rheoli perfformiad cadarn.

34 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi neilltuo unigolyn cyfrifol i bob amod a chaiff cynnydd ei fonitro gan Lywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredwyr ar y Cyd. Er bod y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn hir, tua 300 o dudalennau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio crynodebau hygyrch i randdeiliaid a staff.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno model cynllunio strategol cynhwysfawr ac yn cymryd camau i gryfhau gallu a chapasiti cynllunio

35 Mae prosesau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi gwella'n raddol. Wrth ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig diwygiedig ac wedi'i adnewyddu ar gyfer 2016-2019, adolygodd y Bwrdd Iechyd y prosesau a ddefnyddiwyd ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig 2015-2018, gan ddysgu o'r adolygiad a'r argymhellion archwilio mewnol. Arweiniwyd y broses gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad. Defnyddiwyd 'pecyn cynnwys' ganddynt, yn amlinellu'r cynnwys sy'n ofynnol a'r wybodaeth i gefnogi datblygiad adrannau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gan arweinwyr gwasanaethau neilltuedig. Dosbarthwyd adrannau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig o'r flwyddyn cynt gyda'r pecyn i'w diweddaru, ac roedd cymorth ar gael gan dîm y prosiect. Cymeradwywyd yr adrannau gan arweinwyr Cyfarwyddwyr Gweithredol. Adolygodd a darparodd y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd llawn fewnbwn trwy gydol y broses hyd at y drafft terfynol a chymeradwyaeth.

36 Yn rhan o waith eleni, rydym wedi ystyried y dulliau rheoli newid a ddefnyddiwyd gan gyrff iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol yn hyfforddi Swyddogion Gweithredol a'r holl reolwyr rhaglen ar Reoli Rhaglenni Llwyddiannus neu gwrs pum diwrnod y Gymdeithas Rheoli Prosiectau hyd at lefel Cydymaith. Ceir ymrwymiad parhaus i ddarparu hyfforddiant rheoli prosiect mewnol i gefnogi darpariaeth y rhaglen newid ac mae staff wrthi'n cael eu recriwtio i gefnogi

ailddatblygiad a darpariaeth yr hyfforddiant hwn i ddarparu sgiliau sylfaenol ar draws Cyngor Sir Powys a'r Bwrdd Iechyd.

37 Mae'r amgylchedd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ynddo yn cael ei gymhlethu gan ei ddibyniaeth ar gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr mewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae gan bob un o'r sefydliadau hyn ei agenda gweddnewid ei hun y mae angen i'r Bwrdd Iechyd ei ddylanwadu, fel Future Fit yn Amwythig a Telford a'r Cynllun Cynaliadwyedd a Gweddnewid ar gyfer Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau bod ganddo gynrychiolaeth yn y broses gynllunio ym mhob ardal ac ar Raglen Gydweithredol Canolbarth Cymru a Rhaglen De Cymru. Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Powys yn rhan o'r agenda integreiddio. Penodwyd Cyfarwyddwr Gweddnewid ganddynt ar y cyd, er na chafodd y swydd hon ei hymestyn y tu hwnt i dri mis.

38 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnwys rhanddeiliaid allanol ym Mhowys mewn gwahanol weithgareddau ymgysylltu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda digwyddiadau ar gyfer darparwyr gofal eilaidd, cynrychiolwyr o'r trydydd sector, a thrwy fforymau cleifion. Nid oes unrhyw awgrym yr ystyrir bod unrhyw ymgysylltiad yn rhwystr. Fodd bynnag, cydnabuwyd gan y Bwrdd Iechyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2016 bod angen dull mwy cydgysylltiedig i atal dryswch a gorlwytho o ran ymgysylltiad.

39 Yn dilyn adolygiad o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Pherfformiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i gryfhau'r swyddogaeth hon. Gwnaed y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad dros dro yn barhaol yn gynharach yn y flwyddyn, a phenodwyd pedwar cyfarwyddwr cynorthwyol. Nodir y trefniadau llywodraethu yn eglur yn y ddogfen Tîm Prosiect Llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig 2016 - Llywodraethu. Mae tîm y prosiect yn cynnwys staff uwch o'r Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am ddatblygu meysydd allweddol y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Swyddfa Rheoli Rhaglen wedi ei sefydlu ac mae ganddi Reolwr Cynllunio a Phrosiect sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r gwaith o lunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, golygu a goruchwylio cynnwys a phrosesau datblygu ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth yn erbyn y cynllun.

40 Er y datblygwyd amcan strategol y Cynllun Tymor Canolig Integredig o'r brig i lawr, caiff y cynnwys a'r blaenoriaethau eu cynhyrchu o'r gwaelod i fyny. Trafodwyd adroddiad, Dull BIA Powys o Reoli Law yn Llaw at Iechyd: Cynlluniau Cyflawni Lleol, yn y Pwyllgor Cynllunio a Pherffmirad Ariannol ym mis Tachwedd 2016 ac mae'n ymateb trylwyr o ofynion Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynlluniau Cyflawni Cenedlaethol yn rhan annatod o'r broses Cynllun Tymor Canolig Integredig ac fe'u rheolir yn unol â'r cylch cynllunio corfforaethol tymor canolig. Caiff y cynlluniau eu datblygu felly o wybodaeth fusnes graidd y Bwrdd Iechyd yn unol â gweledigaeth strategol y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu grŵp llywio'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol sy'n cyfeirio datblygiad a rheolaeth cynlluniau cyflawni er mwyn sicrhau cysondeb ac integreiddiad rhwng cynlluniau pan fo hynny'n briodol. Neilltuwyd arweinydd gweithredol ac arweinydd swyddog i bob cynllun mawr i gynllunio ac arwain.

41 Mae’r broses ar gyfer cymeradwyo’r cynlluniau cyflawni drwy’r Grŵp Cyflawni a Pherfformiad; y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad Ariannol; a chymeradwyaeth derfynol gan y bwrdd. Ym mis Tachwedd 2016, roedd pum cynllun amod pwysig o’r 11 a oedd yn ofynnol ar gyfer 2016-17 wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd, a’r cyntaf o’r rhain oedd y cynllun diabetes ym mis Medi 2016. Fodd bynnag, bu anawsterau gyda’r broses hon gan fod y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad Ariannol wedi mynegi pryderon am gynnwys a strwythur rhai o’r adroddiadau. Ers hynny, mae grŵp llywio’r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol wedi diwygio’r templed i gynnig mwy o drosolwg ac eglurder o ran y ddarpariaeth o gamau gweithredu a blaengynlluniau a chymryd agwedd comisiynu portffolio’r Bwrdd Iechyd i ystyriaeth hefyd. Mae’r chwe chynllun sy’n weddill yn cael eu datblygu gyda dyddiad cyflawni disgwyliedig o Fawrth 2017.

42 Mae’r Bwrdd Iechyd yn deall y capasiti sydd ei angen arno i ddarparu’r Cynllun Tymor Canolig Integredig fel y nodwyd gan Fodel Gweithredu’r Prif Weithredwr ar gyfer ail-ddylunio’r gweithlu Swyddogion Gweithredol a rannwyd gyda’r Pwyllgor Datblygu’r Gweithlu a’r Sefydliad ym mis Gorffennaf 2016. Gwnaed cynnydd da tuag at benodi i’r holl swyddi uwch ac mae’r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddarparu agenda uchelgeisiol.

43 Derbyniodd ein harolwg o aelodau’r Bwrdd ymatebion cadarnhaol yn gyffredinol i’r datganiadau canlynol:

- Mae’r Bwrdd Iechyd wedi mesur y manteision y mae’n disgwyl i’r Cynllun Tymor Canolig Integredig presennol eu darparu.
- Mae’r Bwrdd a phwyllgorau perthnasol yn rhoi digon o amser o’r neilltu ar gyfer craffu’n effeithiol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig presennol.
- Mae’r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth briodol i gefnogi craffu effeithiol ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

### Ceir trefniadau sicrwydd effeithiol sy’n esblygu i fonitro ac adrodd cynnydd ar gyflawniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig, er y gallai adroddiadau wneud gwell defnydd o grynodebau, cerrig milltir a rhagolygon

44 Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad sy’n gyfrifol am fonitro cyflawniad ffrydiau gwaith a phrosiectau’r Cynllun Tymor Canolig Integredig er bod hyn yn cael ei arwain gan Reolwr y Prosiect o ddydd i ddydd. Ceir problemau capasiti yn y tîm perfformiad y mae’r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i’w datrys.

45 Mae Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd, sef blwyddyn gyntaf y Cynllun Tymor Canolig Integredig, wedi alinio targedau Fframwaith Canlyniadau GIG Llywodraeth Cymru 2016-17 ac yn mesur blaenoriaethau ar lefel uchel. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu a’i gryfhau ymhellach eleni trwy’r broses adolygu a chynllunio tri misol a datblygiad blwyddyn gyntaf y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2017-18. Mae’r Bwrdd Iechyd yn adrodd bob tri mis ar gyflawniad yn erbyn y Cynllun Blynyddol. Adroddiad Chwarter 2 yw’r diweddaraf a chraffwyd arno gan y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherffmirad ym mis Tachwedd 2016.

46 Mae’r Bwrdd Iechyd yn adrodd yn erbyn y Mesurau Canlyniadau Cenedlaethol bob mis trwy ei Adroddiadau Perfformiad Integredig Misol. Mae’r Bwrdd Iechyd wrthi’n datblygu Mesurau Canlyniadau Powys i gyd-fynd â mesurau cenedlaethol sy’n darparu trywyddion a thargedau ar gyfer cyflawni. Mae’r Adroddiad Perfformiad Integredig Misol yn cynnig diweddariad ar gynnydd o ran gweithredu’r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ond nid yw’r gwaith olrhain rheoli prosiect manwl yn weledol ar lefel y bwrdd. Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad sy’n craffu ar yr Adroddiad Perfformiad Integredig Misol. Caiff rheolaeth perfformiad manwl o’r Cynllun Tymor Canolig Integredig ei wneud yn y Grŵp Cyflawni a Pherfformiad, sy’n un o is-grwpiau’r Pwyllgor Gweithredol.

47 Caiff adroddiadau eithrio eu llunio ar gyfer unrhyw faes lle mae angen mwy o esboniad o berfformiad a chaiff y rhain eu hystyried gan y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad. Mae’r Pwyllgor wedi mynegi pryderon am yr adroddiadau hyn ac mae’r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn gweithio i wella’r broses uwchgyfeirio a’r hyn y gall y Bwrdd Iechyd ei wneud i ddatrys unrhyw broblemau a amlygir. Efallai y bydd angen mwy o adnoddau neu fwy o amser ar gyfer rhai materion, ond mae angen egluro’r broses hon.

48 Caiff adroddiadau blynyddol eu llunio ar gyfer pob un o’r cynlluniau cyflawni penodol i amod a chyflwynir y rhain i’r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad i’w hadolygu. Fodd bynnag, codwyd pryderon bod y pedwar adroddiad blynyddol ar gyfer 2015-16 a gyflwynwyd hyd yn hyn yn rhy dechnegol ac anodd eu deall a’u craffu yn effeithiol os nad yw’r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gael i’w cyflwyno. Mae’r Bwrdd Iechyd yn gwneud newidiadau i’r adroddiadau hyn i’w hegluro a’u halinio’n agosach â’r broses Cynllun Tymor Canolig Integredig a bydd yn sicrhau bod y Swyddog Gweithredol priodol yn bresennol.

49 Rydym hefyd wedi gwneud asesiad o gynnwys yr adroddiad ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig i’r Bwrdd yn rhan o’r adroddiad perfformiad integredig. Mae’r dadansoddiad hwn yn dynodi bod defnydd da o graffeg, codau lliw i adrodd ar berfformiad, a gwybodaeth am dueddiadau i helpu’r darllenwr i ddeall y cynnydd sy’n cael ei wneud o ran cyflawniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae hefyd yn gwneud yn eglur pwy sy’n gyfrifol am ddatrys problemau a nodir. Fodd bynnag, amlygodd y dadansoddiad hefyd y gallai’r adroddiad mwy manwl i’r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ddangos y canlynol yn well:

- crynodeb cyffredinol o gynnydd, gan gynnwys cerdyn sgorio neu rywbeth tebyg;
- cerrig milltir i ddangos cynnydd;
- cyflawniad gwirioneddol yn erbyn cyflawniad arfaethedig, yn ogystal â chyflawnrwydd rhaglen waith;
- rhagolygon i ddarogan y sefyllfa gyda’r rhaglen yn y dyfodol; a
- pharhad o adroddiadau blaenorol i alluogi darllenwyr i olrhain themâu dros amser.

50 Yn ogystal â'r uchod, derbyniodd ein harolwg o aelodau'r Bwrdd ymatebion cadarnhaol yn gyffredinol i'r datganiadau canlynol:

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mesur y manteision y mae'n disgwyl i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig presennol eu darparu.
- Mae'r Bwrdd a phwyllgorau perthnasol yn rhoi digon o amser o'r neilltu ar gyfer craffu'n effeithiol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig presennol.
- Mae'r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth briodol i gefnogi craffu effeithiol ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

## Mae'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i ddatblygu ei Strategaeth Iechyd a Gofal mwy hirdymor

51 Cyhoeddwyd Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017-20[5] ym mis Hydref 2016 ac yn cynnwys rhai gofynion newydd, gan gynnwys yr angen i fod â strategaeth hirdymor a gofynion monitro ac adrodd penodol y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac yn benodol:

- Bydd Llywodraeth Cymru angen diweddariadau tri misol ar gyflawniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig gan bob sefydliad.
- Mae'n rhaid bod gan gyrff GIG drefniadau i fonitro ansawdd a chyflawniad yn erbyn y cynllun yn fisol. Dylid sicrhau'r canlynol o leiaf:
  - grŵp gweithredol i oruchwylio darpariaeth y cynllun; ac
  - is-bwyllgor i'r Bwrdd neu grŵp i graffu ar gynnydd a pherfformiad a'i herio yn rheolaidd.
- Dylai'r Bwrdd dderbyn asesiad cyffredinol o gynnydd yn erbyn y cynllun mewn sesiwn gyhoeddus o leiaf dwywaith y flwyddyn.

52 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith eisoes sy'n bodloni'r gofynion newydd. Fel adnewyddiad o gynllun a gymeradwywyd, bydd cynnwys Cynllun Tymor Canolig Integredig 2017-2020 yn cael ei ddatblygu'n fwy cadarn yn seiliedig ar adolygiadau perfformiad tri misol o ddarpariaeth y cynllun presennol, y cynllun blynyddol a chynlluniau'r cyfarwyddiaethau. Dylai'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a ddisgrifiwyd yn gynharach sicrhau bod y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i fodloni'r gofynion.

53 Am y tro cyntaf, bydd fframwaith cynllunio 2017-20 yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad ddatblygu strategaethau hirdymor yn pennu'r cyfeiriad teithio ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Dylai hon fod yn ddogfen ar wahân i Gynllun Tymor Canolig Integredig 2017-20, a fydd yn dangos sut y mae'r camau i'w cymryd yn y cyfnod tair blynedd yn helpu i gyflawni gweledigaeth hirdymor y sefydliad a nodwyd yn y strategaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i ddatblygu ei strategaeth fwy hirdymor oherwydd bod gan ei raglen newid strategol Raglen Datblygu Strategaeth Iechyd a Gofal ar waith eisoes, yn manteisio ar ei raglen

[5] Llywodraeth Cymru, **Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017/20**, WHC/2016/044

Model Cyflawni Strategol cynharach ynghyd â rhaglenni galluogi ar gyfer y gweithlu, technoleg, deallusrwydd busnes ac ystadau. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cynnal sesiynau datblygu ar ddatblygu'r Strategaeth Iechyd a Gofal.

54 Roedd ein gwaith asesu strwythuredig yn 2014 a 2015 yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â chynllunio strategol. Mae Arddangosyn 3 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed ac yn dangos cynnydd cyson o ran llunio a chraffu ar gynlluniau, ond cynnydd araf o ran sefydlu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

Arddangosyn 3: cynnydd o ran argymhellion cynllunio strategol 2014 a 2015

| Blwyddyn | Argymhelliad | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|
| 2014 | A2 Er nad oes gan y Bwrdd CTCI cymeradwy eto, y mae wedi nodi themâu a heriau strategol lefel uchel. Fodd bynnag, nid yw'r rhain hyd yma wedi cael eu trosi'n gynllun neu'n rhaglen gyflawni â blaenoriaeth, gan greu ansicrwydd ynghylch trawsnewid i fodelau a llwybrau gofal yn y dyfodol.<br>a) Creu cynlluniau strategol a gweithredol sy'n cefnogi trawsnewid i fodelau a llwybrau gofal yn y dyfodol.<br>b) Datblygu dull ar lefel gorfforaethol i fonitro a chraffu ar waith i gyflawni cynlluniau strategol ac amcanion sefydliadol. | **Cyflawn**<br>Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi ei gymeradwyo ac mae cynllun blynyddol ar waith. Mae cynlluniau cyfarwyddiaeth ar waith hefyd.<br>Caiff darpariaeth cynlluniau cyfarwyddiaeth ei monitro bob tri mis. Sefydlwyd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad i graffu ar gynlluniau yn rheolaidd. Cynhelir cyfarfodydd perfformiad ffurfiol gyda'r Cyfarwyddiaethau pan fydd cyflawniad cynlluniau gweithredol yn cael ei fonitro. |
| 2015 | A7 Er mwyn sicrhau ymgysylltiad cymunedol cryf trwy gyngor annibynnol a chyfranogiad o bob rhan o'r gymuned, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sefydlu grŵp cyfeirio rhanddeiliaid. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gyflawni eto**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Mae'r aelodaeth yn cael ei chwblhau. Er y bu'n anodd ei drefnu, bwriedir cynnal y cyfarfod cyntaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol. |

Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wneud gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu ei fframwaith sicrhau'r bwrdd a chryfhau effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau, er nad yw problemau gyda llywodraethu gwybodaeth wedi cael eu datrys eto

55 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull y Bwrdd Iechyd o fapio sicrwydd a datblygu ei fframwaith sicrhau'r bwrdd, effeithiolrwydd y Bwrdd a'i strwythurau llywodraethu a'r adolygiad o gynnydd o ran mynd i'r afael â materion gwella a nodwyd yn flaenorol. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

Er bod y broses o ddablygu fframwaith sicrhau'r bwrdd cynhwysfawr wedi bod yn hirfaith, mae'r bwrdd yn deall ei ofynion sicrwydd erbyn hyn, ac mae rhagor o waith ar y gweill i'w gwblhau a'i roi ar waith yn effeithiol

56 Mae gan bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd strwythurau a phrosesau llywodraethu ar waith i geisio a darparu sicrwydd ynghylch y gwasanaethau a ddarperir, bod risgiau'n cael eu rheoli a bod y sefydliad yn gweithredu yn unol â gofynion cyfreithiol ac eraill. Mae cyrff GIG yn sefydliadau cymhleth ac yn gweithredu mewn amgylchedd dynamig. Mae'n bwysig felly bod byrddau yn adolygu eu trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn barhaus ac yn bodloni eu hunain bod y sicrwydd y maent yn dibynnu arno yn gymesur, wedi'i dargedu'n briodol ac yn cynnwys holl bortffolio risg cyffredinol y sefydliad.

57 Mae mapio sicrwydd[6] yn ddull a ddefnyddir fwyfwy ar gyfer nodi a mapio'n systematig i sicrwydd sydd ei angen ynghylch risgiau allweddol i fodloni amcanion sefydliadol. Gall y broses fapio helpu sefydliadau i amlygu unrhyw fylchau yn eu sicrwydd, neu ailadrodd prosesau sicrwydd yn ddiangen. Mae mapio o'r fath yn cynorthwyo'r gwaith o gynllunio fframwaith sicrwydd effeithiol, sy'n alinio risgiau a sicrwydd â'r systemau rheolaeth a'r trefniadau craffu priodol.

58 Rydym wedi archwilio dull y Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu ac adolygi ei fframwaith sicrhau'r bwrdd a sut y mae hwn yn cymharu'r â'r dulliau a fabwysiadwyd mewn byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill yng Nghymru. Rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol yn ymwneud â fframwaith sicrhau'r bwrdd y Bwrdd Iechyd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

59 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn ymdrechu i lunio fframwaith sicrhau'r bwrdd effeithiol ers cryn amser. Mae'r gwaith sicrhau'r bwrdd a strategaeth risg yn cael ei arwain gan Ysgrifennydd y Bwrdd, a benodwyd yn barhaol yn ystod y flwyddyn. Mae'r broses wedi bod trwy sawl fersiwn ers cyflwyno'r system sicrhau'r bwrdd gyntaf ym mis Rhagfyr 2014 a chyflwynwyd drafft cyntaf o'r fframwaith sicrhau'r bwrdd i gyfarfod bwrdd mis Mehefin 2015. Ym mis Chwefror 2016, cytunodd y Bwrdd i'r dull presennol o ddatblygu'r fframwaith sicrwydd a'r egwyddorion a fydd

[6] Trysorlys EM, **Assurance Frameworks**, Rhagfyr 2012

yn sail iddo, gan gynnwys dirprwyo cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau am oruchwylio datblygiad a monitro trefniadau sicrwydd.

60 Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn dilyn proses eglur i ddatblygu'r fframwaith sicrhau'r bwrdd. Pennwyd y 12 amcan strategol a'r gweithgareddau sy'n sail iddynt gan y Bwrdd Iechyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd wedi adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau a'r Bwrdd ar gynnydd yn ystod y flwyddyn. Aeth yr adroddiad diweddaraf i'r Bwrdd ym mis Medi 2016. Amlygodd y cynhaliwyd cyfres o sesiynau datblygu rhwng mis Mehefin a mis Medi i helpu'r Bwrdd i nodi a deall y risgiau a allai effeithio ar gyflawniad y 12 amcan strategol, a swyddogaeth y Bwrdd o ran sicrhau y cymerir camau priodol i'w lliniaru a'u rheoli.

61 Mae gwaith ar ddatblygu'r parodrwydd i dderbyn risg gorfforaethol wedi parhau ers gweithdy mis Tachwedd 2015. Cymeradwywyd ei ddatganiad parodrwydd i dderbyn risg gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2016 a chytunodd i'r roi ar y fewnrwyd. Mae ar gael ac yn nodi y bydd yn ddogfen fyw ac yn cael ei rhannu o gwmpas y sefydliad. Ym mis Medi, cymeradwywyd y diweddariad gan y Bwrdd a chytunodd i'r risgiau a ddatblygwyd ym mis Mehefin i gael ei defnyddio i hysbysu cofrestr risg gorfforaethol a fframwaith sicrhau'r Bwrdd Iechyd. Cytunasant hefyd i ddefnyddio'r templed a ddarparwyd i gofnodi'n ffurfiol y rheolaethau a gwybodaeth sicrwydd.

62 Yn ogystal â'r gwaith ar y gofrestr risg gorfforaethol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu ei strategaeth risg. Amlygodd yr adolygiad Archwilio Mewnol diweddar o ardaloedd broblem o ran rheoli risgiau ar lefel gwasanaeth ac uwchgyfeirio risgiau. Fodd bynnag, nid oedd y strategaeth risg ar gael ar gyfer cyfarfod Bwrdd Tachwedd 2016 fel y rhagwelwyd. Ceir diffyg cysylltiad ar hyn o bryd rhwng y gofrestr risg gorfforaethol a chofrestrau risg cyfarwyddiaeth, ac mae hyn yn cael sylw.

63 Fodd bynnag, er gwaethaf y gweithgarwch a ddisgrifir uchod, mae terfynau amser wedi mynd heibio ac nid oes gan y Bwrdd Iechyd fframwaith sicrhau'r bwrdd cwbl weithredol ar waith o hyd, oherwydd y gwaith ychwanegol sy'n cael ei wneud i sicrhau bod Aelodau Annibynnol yn cymryd rhan lawn yn y broses mapio sicrwydd. Hefyd, mae'r Prif Weithredwr wedi cydnabod bod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol. Cymeradwywyd swyddi ychwanegol ac mae recriwtio wedi cychwyn.

64 Yn gadarnhaol, canfu ein harolwg o aelodau'r Bwrdd bod yr holl ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi cael eu cynnwys yn llawn yn natblygiad y fframwaith sicrhau'r bwrdd a bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei strwythurau llywodraethu yn effeithiol ac yn eu haddasu i ganolbwyntio ar y meysydd sydd bwysicaf i lwyddiant sefydliadol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn llai hyderus wrth ateb y cwestiwn 'Mae fy sefydliad yn nodi'r sicrwydd sydd ei angen arno yn effeithiol i sicrhau bod amcanion strategol yn cael eu bodloni'. Yn yr achos hwn, roedd dwy ran o dair yn cytuno ond nid oedd un o bob tri yn cytuno nac yn anghytuno. Mae hwn yn ymateb realistig o ystyried y cam y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei gyrraedd yn natblygiad ei fframwaith sicrhau'r bwrdd.

65 Y darlun sy'n dod i'r amlwg o'n hadolygiad o'r fframweithiau sicrhau'r bwrdd yw er nad oes gan Bowys fap sicrhau'r bwrdd eto, mae'n amlwg bod rhywfaint o feddwl eisoes i benderfynu beth yw'r bygythiadau i fodloni'r amcanion corfforaethol. Gellid gwneud mwy i esbonio'r amcanion corfforaethol i'w gwneud yn fwy eglur beth yw'r meini prawf llwyddiant, a bydd hyn yn cynorthwyo wedyn yr ystyriaeth o'r bygythiadau a'r digwyddiadau a allai effeithio ar y gallu i fodloni'r amcan. Mae'n amlwg bod mwy o waith i'w wneud, ond mae'n addawol nodi bod y fframwaith sicrwydd yn dechrau o feddwl am fodloni amcanion corfforaethol. Dylai'r Bwrdd Iechyd feddwl hefyd am sut y mae'n gwahanu cyflwyniad risg weithredol trwy gofrestr risg gorfforaethol, a'r broses mapio sicrhau'r bwrdd.

66 Mae'r Prif Weithredwr yn awyddus i'r fframwaith sicrhau'r bwrdd gael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer cyfarfod bwrdd mis Ionawr 2017. Disgwylir y bydd y strategaeth risg, Rheolau Sefydlog diwygiedig, Cynllun Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gael ar yr un pryd. Ar ôl i'r fframwaith sicrwydd gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y system sicrwydd yn cael ei deall a'i gweithredu'n effeithiol ar draws y sefydliad. Dylid dilyn hyn gyda phroses o hunanasesu a gwersi a ddysgwyd i hysbysu diwygiadau i gynllun y fframwaith sicrwydd.

67 Gwnaed yr argymhellion canlynol gennym ynghylch datblygu fframwaith sicrhau'r bwrdd yng ngwaith asesu strwythuredig 2014 a 2015. Mae Arddangosyn 4 yn dangos bod y Bwrdd wedi cytuno ei ddatganiad parodrwydd i dderbyn risg ym mis Chwefror 2016 a bod datblygiad fframwaith sicrhau'r bwrdd cadarn ar y trywydd cywir ond heb ei gyflawni eto.

Arddangosyn 4: cynnydd o ran argymhellion fframwaith sicrhau'r bwrdd 2014 a 2015

| Blwyddyn | Argymhelliad | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|---|
| 2014 | A4 | Yn 2012, argymhellais y dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i'w helpu i asesu ei risgiau cyffredinol a datblygu a chynllunio'r rhaglen sicrhau a goruchwylio angenrheidiol. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau'r fframwaith hwnnw eto. Cwblhau a gweithredu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd cadarn. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gyflawni eto**<br>Er ei bod wedi cymryd amser maith, mae'r broses o ddatblygu fframwaith sicrhau'r bwrdd cadarn wedi bod yn rhan o'r broses o gael sicrwydd ynddi ei hun. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd y fframwaith sicrhau'r bwrdd wedi'i gwblhau erbyn dechrau 2017. |

| Blwyddyn | Argymhelliad | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|
| 2015 | A5 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddeall a datgan ei barodrwydd i dderbyn risg yn well er mwyn cefnogi rheolaeth risg effeithiol. | **Cyflawn**<br>Cytunodd y Bwrdd ei ddatganiad parodrwydd i dderbyn risg ym mis Chwefror 2016.<br>Mae aelodau'r Bwrdd wedi mynychu cyfres o weithdai i'w helpu i nodi ac, yn bwysicaf deall y risgiau a allai effeithio ar gyflawniad amcanion corfforaethol a swyddogaeth y Bwrdd o ran sicrhau y cymerir camau priodol i'w lliniaru/rheoli. |

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith helaeth o gryfhau effeithiolrwydd ei fwrdd a'i bwyllgorau, er y gellid gwneud mwy i ddarparu gwasanaethau gwrth-dwyll ac archwilio clinigol effeithiol

68 Mae ein harsylwadau o gyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau wedi canfod lefelau uchel o graffu a herio gydag ymatebion cyffredinol dda gan Swyddogion Gweithredol. Mae aelodau'r Bwrdd yn credu'n gryf bod diwylliant o dryloywder yn y Bwrdd Iechyd. Gan ymateb i'r datganiad yn ein harolwg 'Mae'r sefydliad wedi gwneud ymdrech bendant i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â rhoi sicrwydd i'r bwrdd a'i bwyllgorau yn agored ac yn ddidwyll', roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.

69 Mae'r Aelodau Annibynnol yn gweithio'n dda, gan ddarparu her briodol a gwella cadeiryddiaeth cyfarfodydd. Mae'r Cadeirydd hefyd yn cynnig cymorth un i un i'r aelodau i helpu gyda'u hanghenion datblygu unigol. Mae'n gadarnhaol nodi bod cynllunio olyniaeth ar y gweill i lenwi lleoedd dau aelod a fydd yn gadael y flwyddyn nesaf. Canfu ein harolwg ymateb cadarnhaol iawn i'r datganiad canlynol yr oedd yr holl ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ag ef:

- Mae nifer digonol o aelodau'r bwrdd â'r sgiliau i graffu'n effeithiol pa un a yw risgiau'n cael eu rheoli.

70 Er nad oes rhaglen datblygu'r bwrdd ffurfiol ar waith ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith datblygu'r bwrdd helaeth ar amrywiaeth o bynciau cynllunio, sicrwydd a rhannu gwybodaeth. Dangosodd ein harolwg o aelodau'r bwrdd ymateb cyffredinol gadarnhaol i'r datganiad 'Mae'r rhaglen o ddatblygu'r bwrdd yn cefnogi sgiliau a hyder aelodau'r bwrdd o ran ymdrin â sicrwydd yn effeithiol a chraffu ar gyflawniad yn erbyn amcanion', gyda'r mwyafrif yn dewis cytuno'n gryf neu gytuno, er bod dau a ddewisodd ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn datblygu rhaglen datblygu'r Bwrdd a phwyllgorau fwy ffurfiol ar gyfer 2017, er y byddai angen iddo neilltuo amser hefyd ar gyfer sesiynau ad hoc wrth i amgylchiadau newid.

71 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd â rhaglen o waith i wella effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau. Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf

2016, arweiniodd Ysgrifennydd y Bwrdd waith yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn i gynyddu effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau. Adolygwyd yr holl bwyllgorau i sicrhau bod darpariaeth y Bwrdd a'i bwyllgorau yn ddigonol ac nad oes unrhyw fylchau o ran sicrwydd. Mae'r pwyllgorau canlynol wedi newid eu henwau a'u cylchoedd gorchwyl:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau (y Pwyllgor Archwilio gynt);
- Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch (y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch gynt);
- Y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad (y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad gynt);
- Y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu (y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth gynt);
- Y Pwyllgor Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (y Pwyllgor Sicrwydd Iechyd Meddwl gynt);
- Sefydlwyd y Pwyllgor Gweithredol (y Tîm Gweithredol gynt) fel pwyllgor ffurfiol sy'n cymryd cofnodion ac yn adrodd i'r Bwrdd. Mae ganddo dri is-grŵp:
  - Grŵp Cyflawni a Pherfformiad i sicrhau craffu ac adolygu priodol i lefel ddigon trylwyr a manwl o ran perfformiad y Bwrdd Iechyd.
  - Grŵp Cynllunio Strategol yn canolbwyntio ar faterion cynllunio strategol.
  - Bwrdd Rhaglen Newid yn goruchwylio holl raglenni craidd a galluogi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

72 Mae templed adroddiadau bwrdd diwygiedig wedi bod ar waith ers mis Gorffennaf 2016. Mae adolygiad o bapurau'r bwrdd ers mis Gorffennaf yn dangos bod yr holl bapurau a chloriau wedi cwblhau'r holl adrannau yn llawn sy'n helpu'r darllenwr i ddeall y pwyntiau allweddol yn gyflym.

73 Newidiwyd cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau fel bod eitem agenda ar ddiwedd pob cyfarfod i atgoffa aelodau am yr eitemau yr hoffent iddynt gael eu huwchgyfeirio. Mae adolygiad o gofnodion y Bwrdd yn dangos bod y pwyllgorau yn gwneud defnydd o'r grym i atgyfeirio risgiau allweddol a phroblemau/materion o bryder i'r Bwrdd. Amlygwyd cyfanswm o 30 o risgiau allweddol a phroblemau/materion o bryder mewn pump cyfarfod Bwrdd rhwng mis Rhagfyr 2015 a mis Gorffennaf 2016. Er enghraifft, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ei bryderon ynghylch addasrwydd y trefniadau a roddwyd ar waith i ddatblygu a goruchwylio gweithrediad a darpariaeth cynlluniau arbedion i'r Bwrdd ym mis Mai.

74 Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau gan bob pwyllgor. Mae amseriad yr adroddiadau hyn wedi gwella ar ôl ad-drefnu'r bwrdd a'r pwyllgorau yn ystod 2016. Mae'r holl bwyllgorau yn gweithio'n dda yn gyffredinol ac mae'n bwysig bod papurau yn parhau i gael eu cyflwyno mewn pryd i aelodau eu darllen cyn cyfarfodydd pwyllgor. Gellid symleiddio'r broses hon pe bai'r Bwrdd Iechyd yn newid o gopïau caled i bapurau bwrdd digidol.

75 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella tryloywder o ran adrodd cyhoeddus. Cynhaliwyd adolygiad gennym o wefan y Bwrdd Iechyd i asesu cydymffurfiad â Chylchlythyr

Iechyd Cymru[7] o ran cyhoeddi a hygyrchedd gwybodaeth. Mae'r Cylchlythyr yn cynnwys y camau y mae angen cydymffurfio â hwy yn ogystal ag argymhellion i'w hystyried:

- camau y mae angen cydymffurfio â hwy – mae'r Bwrdd Iechyd yn bodloni'r gofynion ar gyfer pob eitem; ac
- argymhellion i'w hystyried - o'r pedair eitem, ni allem ganfod unrhyw dystiolaeth o ddwy (Polisi amseroedd ymweld hyblyg a Chynllun cleifion, diogelwch ac ansawdd).

76 Lluniodd y Bwrdd Iechyd ei adroddiad ei hun ar WHC 2016-033 - Cyhoeddi Gwybodaeth ar Wefannau Byrddau Iechyd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau ym mis Tachwedd 2016. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Bwrdd at Lywodraeth Cymru i gadarnhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofyniad, a nodir yn WHC 2016/033, i gyhoeddi'r wybodaeth ofynnol ar ein gwefan gyhoeddus. Adroddwyd ganddynt fod gwybodaeth ar gael ar y wefan am amseroedd ymweld pob ysbyty a bod y cynllun diogelwch ac ansawdd cleifion yn rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

77 Mae papurau pwyllgor oll ar gael ar wefan gyhoeddus y Bwrdd Iechyd erbyn hyn oni bai fod angen eu cadw'n breifat. Mae'r wefan yn hygyrch iawn ac mae'n hawdd dod o hyd i bapurau pwyllgor. Mae tryloywder wedi cael ei wella ymhellach trwy 'flogio byw' cyfarfodydd y Bwrdd gan ddefnyddio Twitter a Facebook sy'n galluogi unrhyw un i gysylltu o bell a dilyn pwyntiau allweddol cyfarfod y Bwrdd. Defnyddiwyd hyn yn effeithiol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2016.

78 Mae rhagor o waith ar y gweill i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo. Disgwylir i'r rhain fynd i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2017.

79 Mae'r amgylchedd rheolaeth fewnol wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, er bod heriau yn parhau o ran gwneud defnydd gwell o archwilio clinigol a gwasanaethau gwrth-dwyll. Cymerir archwiliadau mewnol o ddifrif ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn adolygiadau ychwanegol. Roedd y Bwrdd Iechyd yn siomedig o gael dyfarniad Archwilio Mewnol cyffredinol o 'sicrwydd cyfyngedig', ond mae'n gweithio'n galed i roi sylw i feysydd o her er mwyn gwella hyn.

80 Adroddwyd gennym yn asesiad strwythuredig 2015 bod gan y Bwrdd Iechyd gynllun archwilio clinigol i gefnogi ei agenda gwella. Nodwyd gennym fod y cynllun a adroddwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Mehefin 2015 yn cynnig gwybodaeth eglur am gynnydd o ran darparu'r amrywiaeth o archwiliadau clinigol lleol ac Adolygiadau Archwilio a Chanlyniadau Cenedlaethol Cymru Gyfan.

[7] Llywodraeth Cymru, **Cyhoeddi Gwybodaeth ar Wefannau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG**, WHC/2016/033. Diben y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yw ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth ar wefannau cyhoeddus Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG ac i sicrhau bod gwybodaeth a gyhoeddwyd ar gael yn rhwydd.

Cymeradwywyd Strategaeth Archwilio Clinigol 2013-14 – 2015-16 yn 2013. Roedd rhagor o waith ar y gweill i adolygu a datblygu'r strategaeth hon. Er na wnaed argymhelliad ffurfiol gennym, nodwyd nad oedd archwilio clinigol yn chwarae rhan lawn eto o ran gwella ansawdd ac nid oedd ei gyfraniad at sicrhau'r bwrdd wedi ei sefydlu; wrth adolygu'r strategaeth archwilio clinigol, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y mae archwilio clinigol yn cysylltu â risgiau ac amcanion strategol.

81 Er y cydnabyddir bod amrywiaeth o archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf, mae angen cydgysylltu rhaglen archwilio clinigol y Bwrdd Iechyd yn fwy cadarn. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau adroddiad Archwilio Mewnol 'sicrwydd cyfyngedig' yn dilyn archwiliad clinigol ym mis Tachwedd 2016. Mae'r adroddiad yn amlygu bod llawer o weithgarwch archwilio yn cael ei gyflawni ond bod angen gwell cydgysylltu ac adrodd gyda phwyslais penodol ar y ffordd orau o gyfrannu at sicrhau'r bwrdd trwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau a'r Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch. Gan na fu unrhyw Gyfarwyddwr Meddygol llawn amser ers dwy flynedd, mae archwilio clinigol yn faes na yw wedi cael lefel briodol o sylw. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y pwyllgor y bydd y Cyfarwyddwr Meddygol newydd yn bwrw ymlaen â'r agenda hwn.

82 Adroddwyd gennym yn asesiad strwythuredig 2015 bod gan y Bwrdd Iechyd wasanaeth gwrth-dwyll llawer gwell gydag amlygiad uwch y swyddog gwrth-dwyll yn arwain at hyder staff i hysbysu am bryderon a chynnydd i waith ymchwilio. Canfuwyd gennym fod gwasanaethau gwrth-dwyll yn parhau i weithio'n dda yn gynharach yn 2016, ond mae'r gwasanaeth a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi lleihau yn dilyn ymddeoliad y swyddog arweiniol, sy'n peri pryder. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau ym mis Tachwedd 2016 y bydd yn adolygu'r cytundeb lefel gwasanaeth gwrth-dwyll ac yn penderfynu a oes angen iddynt gaffael y gwasanaeth mewn gwahanol ffordd.

83 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau wedi gweithio'n dda yn ystod 2016 wrth i'r Cadeirydd gynefino'n dda â'i swydd. Adolygwyd a diwygiwyd ei gylch gorchwyl i gryfhau'r swyddogaeth sicrwydd. Mae'r Cadeirydd a'r Aelodau Annibynnol wedi herio'n dda ac mae swyddogion gweithredol wedi mynychu ac wedi ymateb yn dda i adroddiadau i gefnogi agenda gwella'r Bwrdd Iechyd.

84 Mae Arddangosyn 5 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion yn ymwneud ag effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau a wnaed gennym yn 2014 a 2015. Mae'r argymhellion i ddatblygu rhaglen o ddatblygu sefydliadol ar gyfer rheolwyr gweithredol, i Aelodau Annibynnol wella craffu, ac i wella ansawdd papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau, wedi cael eu cwblhau. Mae'r argymhellion i adolygu'r newidiadau i bortffolios Cyfarwyddiaethau, i egluro cyfrifoldebau Cyfarwyddiaethau ac ardaloedd, a'r Cynllun Dirprwyo ar y trywydd cywir ond heb eu cyflawni eto.

Arddangosyn 5: cynnydd o ran argymhellion effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau 2014 a 2015

| Blwyddyn | Argymhelliad | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|---|
| 2015 | A2 | Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm Gweithredol bach sy'n gyfrifol am bortffolios mawr. Yr her nawr yw sicrhau bod cydnerthedd, capasiti a phrofiad digonol yn y tîm Gweithredol i gynnal cyflymder newid cynaliadwy. Argymhellir y dylid cynnal asesiad o gydnerthedd, capasiti a phrofiad y tîm Gweithredol i sicrhau y cynhelir cyflymder newid cynaliadwy. | **Cyflawn**<br>Mae'r tîm Gweithredol ar ei gryfder llawn ar hyn o bryd. Penodwyd y Cyfarwyddwr Cynllunio dros dro ac Ysgrifennydd y Bwrdd dros dro i swyddi parhaol ac mae Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd newydd wedi dechrau. Bu rhai newidiadau i'r Cyfarwyddwr Cyllid yn ystod y flwyddyn, er bod penodiad dros dro newydd wedi cael ei wneud yn ddiweddar.<br>Adolygwyd gweithrediad y newidiadau i bortffolios Cyfarwyddiaethau yn rhan o ddatblygiad y Fframwaith Gweithredu. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ailystyried hyn yn flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i adnewyddu a chryfhau. |
| 2014 | A3 | Er bod y cyfrifoldeb am gyflenwi yn ei ardaloedd lleol wedi'i ddirprwyo i'r Bwrdd Iechyd, mae angen cynllunio model atebolrwydd perfformiad sy'n adlewyrchu'r ymagwedd at reolaeth ddirprwyedig. Mae'r model ardal yn esblygu, ond mae rhai problemau wedi codi, fel y graddau y dylid canoli neu ddatganoli atebolrwydd a phrosesau. Cadarnhau'r llinellau atebolrwydd ar gyfer ardaloedd mewn dogfen fframwaith rheoli perfformiad. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gyflawni eto**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gwneud gwaith i egluro cyfrifoldebau'r Cyfarwyddiaethau newydd a'r ardaloedd. Mae Archwiliad Mewnol o Ardaloedd diweddar wedi amlygu'r angen am ragor o waith i egluro'r llinellau atebolrwydd i ardaloedd. |

| Blwyddyn | Argymhelliad | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|---|
| 2015 | A3 | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r strwythurau arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer ei Ardaloedd a'i Gyfarwyddiaethau o dan y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Fodd bynnag, nid yw'r cydbwysedd cyfrifoldebau rhwng y canol a'r ardaloedd yn eglur eto ac mae angen rhoi sylw pellach iddynt. Mae angen egluro'r atebolrwydd a'r cyfrifoldebau rhwng y canol a'r ardaloedd, a'u hadlewyrchu yng nghynllun dirprwyo'r Bwrdd Iechyd pan fo hynny'n briodol. | **Cyflawn**<br>Eglurwyd y trefniadau adrodd i ddeg Cyfarwyddiaeth gan y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn. Mae portffolios gweithredol wedi cael eu hadlinio a chomisiynwyd adolygiad o swyddogaethau a chyfrifoldebau.<br>Lluniwyd y model gweithredu i egluro'r cydbwysedd cyfrifoldebau tra bod y gwerthusiad datblygu sefydliadol o ailstrwythuro 2015 wedi adrodd erbyn hyn.<br>Mae'r cynllun dirprwyo yn cael ei ddiwygio gyda'r bwriad o fynd at Fwrdd Ionawr 2017 am gymeradwyaeth. |
| 2015 | A4 | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau sylweddol i gryfhau capasiti ac atebolrwydd gweithredol trwy fuddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth ar gyfer rheolwyr gweithredol a chreu Grŵp Gweithredol a Rheoli. Rydym yn argymell bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud rhagor o waith i gefnogi datblygiad capasiti a gallu rheolwyr gweithredol. | **Cyflawn**<br>Mae'r rhaglen datblygu sefydliadol ar gyfer rheolwyr gweithredol ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Powys. Derbyniodd y Pwyllgor Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad gyflwyniad ym mis Mehefin 2016 yn nodi camau a gymerwyd ledled Powys i ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth, gan gynnwys Piblinell Talent Arweinyddiaeth. Mae hyfforddiant yn cael ei gynnig i staff â diddordeb.<br>Bydd adlinio portffolios ac adolygu swyddogaethau a chyfrifoldebau yn hysbysu datblygiad a gweithrediad rhaglen datblygu sefydliadol. |

| Blwyddyn | Argymhelliad | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|
| 2014 | A5 Dengys sylwadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau fod Aelodau Annibynnol yn herio ar y cyd. Fodd bynnag, mae trylwyredd yr her, y craffu a'r cwestiynu yn amrywio. Datblygu rhaglen gymorth i Aelodau Annibynnol er mwyn cynyddu eu gallu i graffu ar y Bwrdd Iechyd. | **Cyflawn**<br>Mae ansawdd yr her, y craffu a'r cwestiynu gan Aelodau Annibynnol wedi gwella'n sylweddol yn ystod 2016.<br>Mae'r Bwrdd wedi cyflawni rhaglen eang o sesiynau datblygu. Er ei bod yn adweithiol ac ymatebol yn hytrach nag wedi'i chynllunio ar hyn o bryd, bydd yn cael ei ffurfioli ymhellach yn ystod y misoedd nesaf. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cyfarfod gydag Aelodau Annibynnol yn rheolaidd ac yn cynnig adborth a chymorth ac mae'r Cadeirydd yn darparu cymorth parhaus ar sail un i un i Aelodau Annibynnol. |
| 2014 | A6 Ni all y Bwrdd na'i bwyllgorau ond gweithredu'n effeithiol os oes ganddynt wybodaeth briodol sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Dengys gwaith eleni fod gwybodaeth fel arfer yn cefnogi rheolaeth a llywodraethu effeithiol, ond bod angen gwelliannau mewn rhai meysydd. Gwella'r gefnogaeth i bwyllgorau drwy sicrhau bod papurau o ansawdd da, a sicrhau bod papurau a chofnodion bob amser yn cael eu dosbarthu o fewn terfyn amser priodol. | **Cyflawn**<br>Mae pwyllgorau'r Bwrdd iechyd yn gweithio'n dda yn gyffredinol a chafwyd gwelliannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ansawdd y papurau a gyflwynwyd. Newidiodd amserlenni'r Pwyllgorau yn 2016 i gefnogi adrodd gwell i'r Bwrdd. |

## Mae llywodraethu gwybodaeth yn dal i fod yn bryder, er bod newidiadau diweddar wedi cryfhau trefniadau datblygu strategaethau, arweinyddiaeth a sicrwydd

85 Adroddodd ein hasesiad strwythuredig yn 2014 nad oedd y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn darparu'r lefel gywir o drosolwg a sicrwydd eto i sicrhau bod gan y sefydliad drefniadau effeithiol i gydymffurfio â deddfwriaeth wybodaeth allweddol. Gwnaed argymhelliad gennym y dylid cryfhau trefniadau'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth.

86 Adroddodd ein hasesiad strwythuredig yn 2015 bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau i'w brosesau craffu ar faterion llywodraethu gwybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys pwyslais cryfach ar sicrwydd allweddol a rheoli risgiau:

- Roedd y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth wedi datblygu rhaglen waith fwy eglur. Roedd hon yn cynnwys meysydd fel adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y strategaeth a chydymffurfiad â safonau cenedlaethol.
- Roedd y Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei Strategaeth a Chynllun Gweithredu Llywodraethu Gwybodaeth 2015-18. Roedd hwn yn nodi cynllun gweithredu eglur ac yn ceisio rhoi sylw i unrhyw bryderon mewnol/allanol.

87 Fodd bynnag, adroddwyd gennym hefyd bod angen i'r Pwyllgor sicrhau nawr bod craffu yn canolbwyntio ar y meysydd o risg uchel ac y dylid sicrhau tyniant o fynd i'r afael â phroblemau mynych. Roedd rhai meysydd mynych yn parhau lle'r oedd cynnydd yn araf:

- gostwng y lefel diffyg cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data;
- gweithredu trefniadau adfer data a pharhad busnes;
- problemau gydag ansawdd data; a
- niferoedd isel yn manteisio ar hyfforddiant ar faterion fel trin gwybodaeth.

88 Ym mis Tachwedd 2016, cyflwynodd Archwiliad Mewnol adroddiad 'sicrwydd cyfyngedig' i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau ar lywodraethu a chydnerthedd TG. Ceisiodd yr adolygiad roi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd bod trefniadau llywodraethu a chydnerthedd TG digonol ar waith i alluogi integreiddiad y swyddogaethau TGCh rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd a chefnogi'r ddarpariaeth o'r cyd-Strategaeth TGCh a Chynllun Tymor Canolig Integredig cyffredin. Fodd bynnag, codwyd pryderon, gan arwain at argymhellion yn ymwneud â: llywodraethu; rheoli risg ac atebolrwydd; gweithdrefnau adfer; a rheolaethau ffisegol ac amgylcheddol.

89 Er mwyn adolygu cynnydd o ran ein hargymhelliad yn 2014, ein canfyddiadau yn 2015 ynghylch pryderon llywodraethu gwybodaeth, ac i gymryd golwg gynnar ar ymateb y Bwrdd Iechyd i'r adroddiad Archwilio Mewnol, rydym wedi gwneud gwaith maes ychwanegol yn rhan o asesiad strwythuredig 2016. Mae ein casgliadau, a adroddir isod, yn adlewyrchu ein safbwynt bod llywodraethu gwybodaeth yn parhau i fod yn bryder, er bod newidiadau diweddar wedi cryfhau trefniadau datblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sicrwydd:

- Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaethau a chynlluniau eglur ar waith erbyn hyn ar gyfer llywodraethu technoleg a rheoli gwybodaeth yn seiliedig ar Amcan 7 y Cynllun Tymor Canolig Integredig: Sicrhau atebion TGCh arloesol, wedi'u hadeiladu ar blatfform sefydlog. Bwrdd y Rhaglen Technoleg a Rheoli Gwybodaeth, un o alluogwyr Rhaglen Newid gyffredinol y Bwrdd Iechyd, sy'n gyfrifol am ddatblygu'r strategaeth technoleg a rheoli gwybodaeth hirdymor yn ogystal â monitro'r ddarpariaeth o 'fusnes fel arfer'.
- Ceir trefniadau addas i adrodd ar berfformiad a monitro cynnydd o ran technoleg a rheoli gwybodaeth, wedi'u goruchwylio gan Swyddfa Rheoli'r Rhaglen. Mae'r rhain wedi'u cysylltu â'r pedwar gwasanaeth ar wahân ar

gyfer darpariaeth technoleg a rheoli gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd a chaiff y wybodaeth ei chrynhoi mewn adroddiadau i'r pwyllgorau perthnasol bob mis.

- Bu nifer o newidiadau i'r arweinydd portffolio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg a rheoli gwybodaeth. Mae trefniadau mwy eglur ar waith erbyn hyn ac mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn gyfrifol am arweinyddiaeth, atebolrwydd a llywodraethu gwaith llywodraethu gwybodaeth. Fodd bynnag, symudodd cyfrifoldeb am dechnoleg a rheoli gwybodaeth o'r Cyfarwyddwr Cyllid dros dro i'r Cyfarwyddwr Gweddnewid, ond mae'r ddau wedi gadael y sefydliad erbyn hyn. Mae angen egluro atebolrwydd am y strategaeth TG a gwasanaethau i'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys datblygiad strategol y seilwaith TG a gweithrediad prosiectau mawr, caffael a moderneiddio TG.
- Mae trefniadau llywodraethu yn cefnogi cydymffurfiad â deddfwriaeth a diogelu data effeithiol. Mae llinellau adrodd ar waith a darperir diweddariadau rheolaidd i'r pwyllgor perthnasol, i grwpiau ac i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Technoleg, Rheoli a Llywodraethu Gwybodaeth yn craffu ac adolygu materion yn ymwneud â thechnoleg gwybodaeth, rheoli a llywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys agweddau fel ansawdd data, Rhyddid Gwybodaeth ac Egwyddorion Caldicott[8]. Adolygwyd a diwygiwyd ei gylch gorchwyl yn gynharach eleni ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2016. Mae gan y Pwyllgor raglen waith ffurfiol ar waith.
- Mae arsylwadau yn y Pwyllgor Technoleg, Rheoli a Llywodraethu Gwybodaeth yn dangos ei fod yn rhedeg yn dda erbyn hyn, gan nodi pryderon am agweddau ar lywodraethu gwybodaeth ar draws y Bwrdd Iechyd. Yn benodol: yr angen i gynnal adolygiad cyflawn o risgiau llywodraethu gwybodaeth; cyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru; pryderon ar draws portffolio'r Gwarcheidwad Caldicott; lefel y cymorth TG a ddarperir gan Gyngor Sir Powys o dan y cytundeb Adran 33; a lefel yr adnoddau a ddarperir i'r tîm llywodraethu gwybodaeth i gefnogi ei ymdrechion i ddarparu offerynnau a chymorth i hyrwyddwyr ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd pryderon eraill, a oedd yn cyfiawnhau uwchgyfeiriad i'r Bwrdd, yn ymwneud â'r nifer isel sy'n manteisio ar hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth a'r diffyg cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â materion risg a rheolaeth parhaus a hirdymor. Adroddiad un achos diffyg cydymffurfio data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac fe'i cadarnhawyd. Mae dau achos arall o ddiffyg cydymffurfiad â'r Ddeddf Diogelu Data yn cael eu hymchwilio ar hyn o bryd.

[8] Y Cyfarwyddwr Meddygol, fel Gwarcheidwad Caldicott, sy'n gyfrifol am ddiogelu gwybodaeth cleifion ac mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn cyflawni swyddogaeth hanfodol o ran sicrhau bod risgiau diogelwch gwybodaeth yn cael sylw a bod digwyddiadau'n cael eu rheoli'n briodol.

- Ni all darpariaeth yr agenda llywodraethu gwybodaeth gael ei chyflawni gan y tîm staff canolog bach. Hysbyswyd y Pwyllgor Technoleg, Rheoli a Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Hydref 2016 bod y Bwrdd Iechyd yn ailystyried ac yn ailbennu cylch gwaith y tîm. Darparu cyngor arbenigol, hwyluso a darparu sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth, a monitro ac adolygu cydymffurfiad yw cyfrifoldebau'r tîm erbyn hyn. Gofynnwyd i swyddogion gweithredol nodi rhywun o radd ac uchder priodol i arwain darpariaeth yr agenda llywodraethu gwybodaeth ym mhob Cyfarwyddiaeth.
- Ailgyflwynwyd y Grŵp Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth yn ddiweddar ac mae ei gylch gorchwyl a'i atebolrwydd yn cael eu hadolygu. Cadeirir y Grŵp Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth gan Ysgrifennydd y Bwrdd ac mae'n adrodd i'r Tîm Gweithredol gan ei hysbysu am gynnydd o ran datblygu systemau a phrosesau, a bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran llywodraethu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae angen nodi'r llinellau atebolrwydd rhwng y Pwyllgor Technoleg, Rheoli a Llywodraethu Gwybodaeth a'r Grŵp Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Technoleg, Rheoli a Llywodraethu Gwybodaeth.
- Mae'r strategaeth TG a'r cynlluniau gweithredol presennol wedi eu halinio â'r amcan corfforaethol cyffredinol o ddarpariaeth TG ar y cyd â Chyngor Sir Powys o dan Adran 33 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Cefnogir y ddarpariaeth gan drefniadau gweithio ar y cyd gyda Chyngor Sir Powys o dan Adran 33 gydag amserlenni ar gyfer darparu wedi eu diffinio, gyda'r nod o ddarparu mwy o barhad, cydnerthedd a rhannu sgiliau ar draws y tîm. Darperir trosolwg uwch reolwyr priodol gan y Bwrdd Partneriaeth ar y Cyd, y Grŵp Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth a'r Pwyllgor Technoleg, Rheoli a Llywodraethu Gwybodaeth. Adroddwyd gennym yn 2015 bod partneriaeth TGCh Powys wedi gwella cydnerthedd y gwasanaeth a lleihau risg TG, ac mae trefniadau adran 33 yn cynnig sail dda ar gyfer gweithio integredig. Fodd bynnag, hysbyswyd y Pwyllgor Technoleg, Rheoli a Llywodraethu Gwybodaeth bod y trefniadau ar y cyd hyn wedi cael eu cyfyngu gan gapasiti o ran staff ac adnoddau.
- Ceir problemau o hyd gyda threfniadau parhad busnes TGCh. Mae gan bob gwasanaeth clinigol a chyflawni busnes ei gynllun parhad busnes ei hun ond nid oedd yn eglur pwy oedd yn gyfrifol am y cynlluniau a phrin fu'r profion, ond profwyd y rhain yn ystod 2016 yn ystod ymarfer cynllunio brys. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu cyllid yn 2016/17 i fynd i'r afael â rhywfaint o'r datblygiad parhad busnes TG a disgwylir darpariaeth yn gynnar yn 2017/18. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio am gyllid Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r strategaeth TGCh ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Powys, gan adeiladu ar brosiectau llwyddiannus fel Mastermind a Carewell.

90 Gwnaed yr argymhelliad canlynol gennym yn 2015 yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth, sydd ar y trywydd cywir ond heb ei gyflawni eto. Mae Arddangosyn 6 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 6: cynnydd o ran argymhelliad llywodraethu gwybodaeth 2015

| Blwyddyn | Argymhelliad | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|---|
| 2014 | A7 | Nid yw'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth yn darparu'r lefel gywir o oruchwyliaeth a sicrwydd er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad drefniadau effeithiol i gydymffurfio â deddfwriaeth gwybodaeth allweddol. Atgyfnerthu trefniadau'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a sicrwydd effeithiol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gyflawni eto** Diwygiodd y Bwrdd Iechyd y cylch gorchwyl eleni fel bod y Pwyllgor Technoleg, Rheoli a Llywodraethu Gwybodaeth yn cynnwys holl elfennau'r agenda technoleg. Mae cynllun gwaith ffurfiol ar waith. Mae'r Grŵp Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth sy'n sail i'r Pwyllgor yn cael ei gryfhau a'i adolygu. Mae'r Pwyllgor yn mynd i'r afael â'r agenda hwn yn fwy hyderus, gan ddarparu trosolwg a sicrwydd mwy effeithiol, er bod angen gwneud llawer o waith o hyd i fynd i'r afael â'r holl bryderon llywodraethu gwybodaeth. Mae angen nodi'r llinellau atebolrwydd rhwng y Pwyllgor Technoleg, Rheoli a Llywodraethu Gwybodaeth a'r Grŵp Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Technoleg, Rheoli a Llywodraethu Gwybodaeth. |

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau adrodd ar weithrediad argymhellion. Mae camau i fynd i'r afael â'r problemau a'r argymhellion a nodwyd mewn asesiadau strwythuredig blaenorol ar y trywydd cywir ond heb eu cwblhau eto

91 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r 7 argymhelliad a wnaed y llynedd a'r 8 argymhelliad a wnaed yn 2014. Mae argymhellion yn ymwneud â rheoli ariannol, cynllunio strategol, fframwaith sicrhau'r bwrdd, effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgorau a llywodraethu gwybodaeth wedi cael eu disgrifio yn adrannau cynharach yr adroddiad hwn. Cwblhawyd cyfanswm o 4 o'r argymhellion o 2015 a 3 o 2014. Ceir 3 argymhelliad o 2015 a 5 o 2014 sydd ar y trywydd cywir ond heb eu cyflawni eto.

92 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael a'n hargymhellion o asesiadau strwythuredig 2014 a 2015, ystyriwyd effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i'n hargymhellion archwilio gennym hefyd. Canfuwyd fod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau adrodd ar weithrediad argymhellion.

93 Ym mis Medi 2015, adroddodd y Bwrdd Iechyd i'r Pwyllgor Archwilio ar drefniadau Archwilio Mewnol ac Allanol effeithiol, ymatebolrwydd a chydymffurfiad gan fod y Pwyllgor Archwilio wedi mynegi pryder ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed o ran gweithrediad amserol argymhellion archwilio a dderbyniwyd. Yn ystod 2016, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau adroddiadau rheolaidd ar gynnydd o ran mynd i'r afael â'r holl argymhellion. Cyflwynwyd adroddiadau ychwanegol ar feysydd lle mae cynnydd o ran argymhellion hirhoedlog wedi bod yn araf, er enghraifft, sicrwydd cyfalaf ac ystadau. Ym mis Medi, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a chyflwyniad ar yr argymhellion hynny lle nad yw'r dyddiad a gytunwyd ar gyfer gweithredu wedi cael ei fodloni ac nid oedd yr argymhelliad wedi ei fodloni o hyd erbyn 31 Gorffennaf 2016. Dywedodd y Pwyllgor bod yn well ganddo'r fformat hwn ar gyfer diweddariad yr argymhellion archwilio, a chytunodd i dderbyn adroddiad diweddar, wedi'i ategu gan gyflwyniad, bob yn ail cyfarfod.

94 Er bod adroddiad eithrio yn cael ei gyflwyno i bob yn ail Bwyllgor Archwilio a Sicrhau, nid yw'r Pwyllgor wedi gweld y traciwr argymhellion llawn ers mis Ionawr 2016. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos i'r Pwyllgor ei fod yn cymryd gweithrediad argymhellion o ddifrif er bod angen cyflwyno'r traciwr llawn bob blwyddyn o leiaf.

95 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau da ar waith i ymateb i ganfyddiadau o arolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru drwy'r Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch.

96 Mae'r holl argymhellion eraill, yn ymwneud ag asedau ac ystadau, ar y trywydd cywir ond heb eu cyflawni eto, ac fe'u disgrifir yn Arddangosyn 7.

Arddangosyn 7: cynnydd o ran holl argymhellion eraill 2014 a 2015

| Blwyddyn | Argymhelliad | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|---|
| 2014 | A8 | Ceir gwendidau cyffredinol o hyd yn y rheolaeth ar asedau ac ystadau. Datblygu strategaeth ystadau gadarn a sicrhau yr ymdrinnir â materion cydymffurfio allweddol. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gyflawni eto**<br>Mae trefniadau rheoli yn yr adran ystadau wedi cael eu cryfhau yn ystod 2016. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fynd i'r afael â'r problemau cydymffurfiad ystadau sylweddol gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw argymhellion archwilio mewnol gweithredol neu heb eu cyflawni yn ymwneud â Phrosiectau Cyfalaf ar hyn o bryd.<br>Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad sy'n gyfrifol am gyfalaf ac ystadau. Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen datblygu'r gwaith Strategaeth Gwasanaeth i ddiffinio'r Strategaeth Ystadau sylfaenol i sicrhau y gall Llywodraeth Cymru gael ei sicrhau am fuddsoddiad cydymffurfiad byrdymor yn yr ystâd.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud ymrwymiad i Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd capasiti a gallu'r lefelau adnoddau presennol yn y tîm Cyfalaf ac Ystadau yn cefnogi'r newid sylweddol i gyllid a gweithgarwch y prosiect. |

| Blwyddyn | Argymhelliad | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|---|
| 2015 | A6 | Yn dilyn asesiad strwythuredig yn 2014, gwnaed argymhelliad gennym y dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu strategaeth ystadau gadarn sy'n mynd i'r afael â phryderon cydymffurfiad allweddol. Mae Rhaglen Amlinelliad Strategol y Bwrdd Iechyd yn rhoi sylw i'r gwaith cydymffurfiad yn y byrdymor i'r tymor canolig. Yn y dyfodol, bydd angen datblygu strategaeth ystadau mwy hirdymor i nodi sut y bydd ystadau ac asedau yn cael eu cynllunio i fodloni model llwybr gofal y dyfodol. Fel yr argymhellwyd yn asesiad strwythuredig 2014, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu strategaeth ystadau mwy hirdymor i nodi sut y bydd ystadau ac asedau yn cael eu cynllunio i fodloni model llwybr gofal y dyfodol. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gyflawni eto**<br>Sefydlwyd Bwrdd Gwella Cyfalaf ac Ystadau i ddod â mwy o bwyslais strategol i faterion ystadau. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu'r Strategaeth Iechyd a Gofal, a fydd yn hysbysu'r Strategaeth Ystadau fwy hirdymor. Disgwylir i Strategaeth Cyfalaf ac Ystadau gael ei hadrodd i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ym mis Mawrth 2017.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymryd camau i weithredu i strategaeth Ystadau Gofal Sylfaenol fel sail i benderfyniadau buddsoddi a cheisiadau am gyllid gofal sylfaenol. |

# Atodiad 1

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2016

Nodir ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd isod. Bydd yr atodiad yn rhan o'r adroddiad terfynol i'w gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Bwrdd neu bwyllgor perthnasol y bwrdd.

Arddangosyn 8: ymateb y rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nad ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1a | Cryfhau trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ariannol trwy gyflwyno trefniadau cynllunio olyniaeth, wedi eu seilio ar broses gadarn o werthuso sgiliau a dadansoddiad bylchau o gymwyseddau allweddol i'r staff hynny y gallai fod yn ofynnol iddynt weithio yn lle rhywun yn ystod cyfnodau o absenoldeb. | Darparu staff â sgiliau priodol ar gyfer y swyddogaeth cynllunio ariannol. | Ydy | Do | Mae Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro wedi ei benodi. Mae'n gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol a'r Pennaeth Cyllid i fynd i'r afael â rhai materion cynllunio olyniaeth uniongyrchol. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro yn llunio gweledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol cadarn ar draws y bwrdd iechyd, a bydd cynllun olyniaeth a hyfforddi/datblygu cysylltiedig yn cael ei roi ar waith ar ôl ei orffen. | Diwedd Awst 2017 | Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nad ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1b | Cryfhau trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ariannol trwy adolygu gweithdrefnau cymeradwyo cyllidebau, gan sicrhau y ceir cymeradwyaeth briodol a chadarnhad ffurfiol ar gam cywir y broses. | Sicrhau bod prosesau cymeradwyo cyllidebau yn gadarn. | Ydy | Do | Bydd y polisi Rheolaeth Gyllidebol yn cael ei adolygu a'r adran yn ymwneud â gweithdrefnau cymeradwyo cyllidebau yn cael ei diwygio i gynnig mwy o eglurder ynghylch y trefniadau hyn. | Diwedd Ebrill 2017 | Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro [dirprwywyd i'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol/ Rheolwyr Cyllid Ardal] |
| A1c | Cryfhau trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ariannol trwy adolygu'r broses sydd ar waith ar gyfer datblygu'r cynlluniau arbedion gan sicrhau bod y cynlluniau manwl yn cefnogi strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd. | Sicrhau bod proses gadarn ar waith i ddatblygu cynlluniau arbedion sy'n cefnogi strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd. | Ydy | Do | Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro yn gweithio gyda'r Tîm Gweithredol i sicrhau dull mwy cadarn y mae uwch reolwyr ar draws y bwrdd iechyd yn gyfrifol amdano. | Diwedd Mawrth 2017 | Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nad ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1ch | Cryfhau trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ariannol trwy ail-flaenoriaethu'r gyllideb i'w halinio yn agosach â strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd. | Sicrhau bod y gyllideb wedi'i halinio'n agosach â strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd. | Ydy | Do | Mae'r broses ar gyfer datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig y bwrdd iechyd ar gyfer 2017-18 yn creu aliniad lle bo hynny'n bosibl – bydd hon yn rhaglen waith barhaus.<br><br>Mae'r bwrdd iechyd yn ymgysylltu ar ddatblygiad Strategaeth Iechyd a Gofal ar hyn o bryd a bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i flaenoriaethau cyllidebau ar ôl ei chwblhau. | Diwedd Mawrth 2017 ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig 2017-18 | Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nad ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1d | Cryfhau'r dystiolaeth fel bod y goblygiadau o ran y gweithlu, cyllid ystadau a TGCh yn cael eu hystyried yn drylwyr wrth ddatblygu'r cynlluniau cyflawni a darparu manylion ar gyfer pob un yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. | Sicrhau bod yr holl oblygiadau wedi cael eu hystyried a'u cofnodi mewn cynlluniau cyflawni. | Ydy | Do | Bu'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Gweithredol ystyried goblygiadau gweithlu, cyllid a TGCh y camau a nodir yn eu cynlluniau cyfarwyddiaeth ar gyfer 2017-18. Mae profforma cynllun blynyddol cyfarwyddiaethau ar gyfer 2017-18 yn cynnwys colofnau ar gyfer nodi'r goblygiadau hyn. | Cymerwyd camau eisoes. | Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad/ Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nad ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Cryfhau trefniadau presennol ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol trwy a) sicrhau bod Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cael eu diweddaru a'u hadolygu yn gyfnodol a b) adolygu'r amgylchedd rheoli ariannol i sicrhau bod cydymffurfiad â phrosesau priodol sydd ar waith. | Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol yn gadarn. | Ydy | Do | Adolygwyd Rheolau Sefydlog ynghyd â'r cynllun dirprwyo – bydd y rhain yn mynd i'r cyfarfod Bwrdd sydd wedi'i drefnu ar gyfer 25 Ionawr 2017.<br><br>Mae asesiad sylfaenol o'r amgylchedd rheolaeth ariannol yn cael ei gynnal gan y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro. Bydd canlyniad hwn ynghyd â chanfyddiadau archwilio cysylltiedig yn hysbysu rhaglen o waith gwella a hap-archwiliadau.<br><br>Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro yn pennu disgwyliadau eglur o staff Cyllid a staff nad ydynt yn staff cyllid o ran sicrhau rheolaeth ariannol gadarn. | Diwedd Ionawr 2017<br><br>Diwedd Mehefin 2017<br><br>Parhaus | Ysgrifennydd y Bwrdd/ Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro<br><br>Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro<br><br>Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nad ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A3 | Cryfhau trefniadau presennol ar gyfer monitro ac adrodd ariannol trwy wella adrodd ar gyflawniad cynlluniau arbedion. | Sicrhau bod trefniadau ar gyfer adrodd ar gynlluniau arbedion yn gadarn. | Ydy | Do | Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro wrthi'n adolygu a chryfhau monitro ariannol ac adrodd ar gynnydd o ran cyflawniad cynlluniau arbedion. | Diwedd Mawrth 2017 | Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nad ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Ar ôl i'r fframwaith sicrhau'r bwrdd gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod dealltwriaeth a gweithrediad effeithiol o'r system trwy a) ymsefydlu'r trefniadau ar draws y sefydliad;<br>b) cynnal rhaglen o hunanasesu; a c) diwygio'r fframwaith sicrhau yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd. | Sicrhau bod y fframwaith sicrhau'r bwrdd yn cael ei ddeall a'i weithredu ar draws y sefydliad. | | Do | Cydnabyddir yr angen i sicrhau bod y systemau sicrwydd yn cael eu deall yn llawn a'u gweithredu'n effeithiol, ac adlewyrchir hyn yng Nghynllun Blynyddol y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu a Materion Corfforaethol ar gyfer 2017-18.<br><br>Bydd yn ofynnol i bob Cyfarwyddiaeth ddatblygu a chynnal eu fframweithiau sicrwydd eu hunain a bydd rhaglen o hyfforddiant, cefnogaeth, hap-archwiliadau a hunanasesu yn cael ei chyflwyno dros y misoedd nesaf i hwyluso a chefnogi hyn. | Bydd rhaglen o hyfforddiant a chefnogaeth yn cael ei datblygu erbyn diwedd mis Ebrill 2017.<br><br>Bydd Fframweithiau Sicrwydd lefel cyfarwyddiaeth ar waith erbyn diwedd Mehefin 2017.<br>Bydd rhaglen o hap-archwiliadau a hunanasesu yn cael ei datblygu a'i chyflwyno o fis Gorffennaf 2017 ymlaen. | Ysgrifennydd y Bwrdd<br><br>Ysgrifennydd y Bwrdd<br><br>Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nad ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Ar ôl i'r fframwaith sicrhau'r bwrdd gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod dealltwriaeth a gweithrediad effeithiol o'r system trwy a) ymsefydlu'r trefniadau ar draws y sefydliad;<br>b) cynnal rhaglen o hunanasesu; a c) diwygio'r fframwaith sicrhau yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd. | Sicrhau bod y fframwaith sicrhau'r bwrdd yn cael ei ddeall a'i weithredu ar draws y sefydliad. | | Do | Bydd Fframwaith Sicrhau lefel y Bwrdd yn cael ei ystyried ym mhob cyfarfod Bwrdd. | Bydd hyn yn cychwyn ym mis Ionawr 2017. | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nad ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A5 | Er y cydnabyddir bod amrywiaeth o archwiliadau clinigol wedi cael eu cynal dros y flwyddyn ddiwethaf, mae angen cydgysylltu rhaglen archwilio clinigol y Bwrdd Iechyd yn fwy cadarn. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer archwilio clinigol i sicrhau ei bod yn chwarae rhan lawn ar gyfer gwella ansawdd a bod ei chyfraniad at sicrhau'r bwrdd yn eglur. | Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud y defnydd gorau o archwilio clinigol i gefnogi gwaith gwella ansawdd a sicrhau'r bwrdd. | | Do | Drafftiwyd strategaeth ar gyfer archwilio clinigol ac mae'n destun ymgynghori ar hyn o bryd. Bydd y strategaeth yn cael ei chwblhau a'i chadarnhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. | Diwedd Mawrth 2017 | Cyfarwyddwr Nyrsio/ Cyfarwyddwr Meddygol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nad ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A6 | Er i wasanaethau gwrth-dwyll gael eu hymsefydlu yn ystod 2015 a dechrau 2016, maent wedi gwaethygu ers hynny. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu gwasanaeth gwrth-dwyll cadarn a chynaliadwy. | Sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd wasanaeth gwrth-dwyll sy'n gallu ymchwilio i'r perygl o dwyll a'i leihau. | | Do | Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro yn archwilio cyfleoedd i ddarparu trefniadau Gwrth-dwyll wedi'u cryfhau gyda bwrdd iechyd arall. Rhagwelir y bydd y trefniadau hyn ar waith yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Diwedd Mawrth 2017 | Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro |
| A7 | Er bod adroddiad eithrio ar gynnydd yn erbyn argymhellion archwilio yn cael ei gyflwyno i bob yn ail Bwyllgor Archwilio a Sicrhau, dylai'r pwyllgor adolygu'r traciwr argymhellion llawn bob blwyddyn o leiaf. | Sicrhau bod y Pwyllgor yn deall pa gynnydd a wnaed o ran pob argymhelliad. | | | Bydd y traciwr argymhellion llawn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad cyntaf o'r math hwn yn mynd i Gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau sydd wedi ei drefnu ar gyfer 14 Mawrth 2017. | Mawrth 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru